# Dathlu 10 Mlynedd o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol ym Mhrifysgol Aberystwyth



1872 PRIFYSGOL ABERYSTWYTH UNIVERSITY

Coleg Cymraeg Cenedlaethol

Cyhoeddwyd gyntaf yn 2026 gan Cangen Prifysgol Aberystwyth o’r Coleg Cymraeg Cenedlaethol
Penbryn 2, Prifysgol Aberystwyth, Campws Penglais, Aberystwyth, Ceredigion.

https://www.aber.ac.uk/cy/ccc/

Hawlfraint © Prifysgol Aberystwyth 2026

Cedwir pob hawl.
Ni chaniateir atgynhyrchu unrhyw ran o’r cyhoeddiad hwn, na’i gadw mewn cyfundrefn adferadwy, na’i drosglwyddo mewn unrhyw ddull na thrwy unrhyw gyfrwng electronig, mecanyddol, ffotogopïo, recordio, na fel arall, heb ganiatâd
ymlaen llaw gan y cyhoeddwyr.

Dylunwyr: Matilda Amos ac Evan Leyshon-James

Dymuna’r cyhoeddwyr gydnabod cymorth ariannol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol .

# Cynnwys


Rhagair 3
Hanes darpariaeth Gymraeg yn y Brifysgol 4
Pynciau
- Addysg 9
- Amaethyddiaeth 11
- Busnes 13
- Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd 16
- Y Gyfraith a Throseddeg 19
- Cyfrifiadureg 21
- Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear 22
- Gwleidyddiaeth Ryngwladol 25
- Gwyddor Filfeddygol 27
- Hanes a Hanes Cymru 29
- Mathemateg a Ffiseg 30
- Nyrsio 33
- Seicoleg 35
- Theatr, Ffilm a Theledu 36

Gwaith ein Myfyrwyr Disglair
- Polisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol a ffederaliaeth: achos Walwnia a Fflandrys yng Ngwlad Belg 37
- Beth yw natur anghydraddoldeb rhyw o fewn y maes rhewlifeg? 44






# Rhagair

**Mae'n fraint, fel Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol, i allu ysgrifennu cyflwyniad ar gyfer y llyfryn yma sy'n dathlu deng mlynedd o gyfraniad sylweddol gan y Gangen. Dechreuais y rôl fel Cadeirydd y Gangen ym mis Medi 2022 yn dilyn ymddeoliad fy rhagflaenydd Penri James. Gobeithiaf y cewch flas wrth ddarllen am hanes darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol, datblygiad y Gangen, erthyglau gan ystod eang o adrannau academaidd y Brifysgol a mewnwelediad i rai o'r allbynnau mwyaf nodedig.**

Fel Cangen rydym wedi cynnal nifer o weithgareddau i nodi'r achlysur. Roedd y digwyddiad 'Cyflogadwyedd' yn cynnwys cyflwyniad gan y prif siaradwr Dr Rhiannon Heledd Williams am 'Y Gymraeg a Gweithle'r Gymru Gyfoes' yn ogystal â sesiynau holi ac ateb rhwng staff academaidd a chyn-fyfyrwyr a fu'n astudio pynciau ym meysydd y Gymraeg, Addysg, y Gyfraith a Throseddeg, Busnes a Gwleidyddiaeth. Cynhaliwyd digwyddiad diddorol 'Dathlu Degawd o Ymchwil' gyda chyflwyniadau gan Dr Catrin Wyn Edwards, Dr Bleddyn Owen Huws a Dr Hywel Griffiths yn ogystal â sesiwn holi ac ateb gyda rhai o'n myfyrwyr PhD sy'n astudio o dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Ar nodyn personol, wrth i mi ymuno â'r Brifysgol fel darlithydd yn 2018, roedd yn amlwg iawn bod y Gymraeg yn allweddol i strategaeth y Brifysgol o dan arweinyddiaeth aelodau grŵp Gweithredol y Brifysgol megis yr Athro Elizabeth Treasure (Is-Ganghellor), yr Athro Anwen Jones (Dirprwy Is-Ganghellor Cyfadran y Celfyddydau a Gwyddorau Cymdeithasol ac arweinydd academaidd darpariaeth cyfrwng Cymraeg) a Dr Rhodri Llwyd Morgan (Cyfarwyddwr y Gymraeg a Chysylltiadau Allanol). Un datblygiad pwysig oedd i lety myfyrwyr Pantycelyn ail-agor ym mis Medi 2020. Mae staff yr adran Gwasanaethau'r Gymraeg o dan arweinyddiaeth Dylan Hughes yn darparu gwasanaeth cyson o safon uchel ar draws y sefydliad. Roedd y Brifysgol yn dathlu carreg filltir nodedig hefyd wrth ddathlu 150 mlynedd ers ei sefydlu yn ystod 2022-23 ac mi fydd UMCA (Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth) yn dathlu ei hanner canmlwyddiant yn ystod y flwyddyn academaidd 2023-2024.

Yn olaf, hoffwn ddiolch yn fawr iawn i'r holl gyn-aelodau a'r aelodau cyfredol ac yn enwedig i Dr Tamsin Davies a Sharon Owen am eu gwaith di-flino fel Swyddogion y Gangen dros y blynyddoedd ac am eu gwaith trylwyr wrth gydlynu a golygu'r gyfrol hon.

**Jonathan Fry**
**Cadeirydd Cangen Prifysgol Aberystwyth**

# Darpariaeth Gymraeg ym Mrifysgol Aberystwyth

## Dr Tamsin Davies

**Sefydlwyd Prifysgol Aberystwyth yn 1872, gyda 25 o fyfyrwyr yn bresennol pan agorodd y Brifysgol ei drysau ym mis Hydref y flwyddyn honno. Nid oedd darpariaeth Gymraeg ar y pryd, ond agorodd yr Adran Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg yn 1875; yr adran hynaf o'i bath. Fodd bynnag, ni ddysgwyd y pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg!**



Er gwaethaf y diffyg darpariaeth Gymraeg ffurfiol yn y Brifysgol, roedd yr iaith yn chwarae rôl yn yr addysg a ddarparwyd. Fodd bynnag, roedd hyn yn tueddu i gwympo i ddau gategori – addysg allanol i'r rhai y tu hwnt i furiau'r Brifysgol a darpariaeth addysgol answyddogol a drefnwyd drwy'r Gymdeithas Geltaidd. . Enghraifft o'r cyntaf yw'r llyfr ar egwyddorion amaethyddiaeth a gomisiynwyd gan y Brifysgol yn 1878 fel rhan o gynllun i ddarparu addysg yn y maes. Gyda rhyw 30% o boblogaeth Cymru yn uniaith Gymraeg ar ddiwedd y 19eg ganrif, cyfieithwyd y llyfr, a ymddangosodd yn gyntaf yn Saesneg, i'r Gymraeg fel *Prif Egwyddorion Amaethyddiaeth.*


Darparodd y llyfr addysg y tu allan i Gymru hefyd - ymddangosodd y fersiwn Cymraeg hefyd fel cyfres o erthyglau ym mhapur newydd Y Drych, sef papur wythnosol cyfrwng Cymraeg Americanaidd, rhwng 1882 a 1883. Mae'n amlwg bod galw am addysg Gymraeg yn y pwnc hwn, gan fod papur newydd Y Gwyliedydd wedi adrodd:

"Mewn atebiad i gais fod arholiadau ar elfenau [sic] amaethyddiaeth yng Nghymru gael eu cario yn mlaen yn yr iaith Gymraeg, dywed y Duc Rutland fod y Pwyllgor y Cyngor ar Addysg wedi penderfynu nas gellir caniatáu y cais, am nad ydyw yr arholwyr yn deall Cymraeg" (15 Mai 1889).

Yn 1889, sefydlwyd y Gymdeithas Geltaidd, a oedd yn cynnal y rhan fwyaf o'i digwyddiadau yn Gymraeg. Roedd y rhain yn cynnwys dadleuon, Eisteddfod a darlithoedd ar bynciau megis 'Cenedlaetholdeb a Llên yn Sgandinafia' yn 1899 gan Thomas Darlington, a oedd wedi dysgu Cymraeg, ac 'Iaith a Diwylliant' yn 1925/6, gan T. Gwynn Jones, er ei fod yn traddodi ei ddarlithoedd yn Adran y Gymraeg yn Saesneg (Hughes, 1928). Nododd Mati Rees am ei hamser yn y Brifysgol yn y 1920au: 'Dim ond yn y Capel, ar y prom, yn y Geltaidd – dyna pryd y caem gyfle i siarad ein hiaith yn gwbl rydd gyda'n gilydd' (Rees, 1972: 69).

Parhâi'r pwyslais hwn ar ddarpariaeth Gymraeg allanol am beth amser. Yn hanner cyntaf yr 20fed ganrif, cyhoeddwyd nifer o lyfrau yn Gymraeg ar bynciau academaidd ar gyfer cynulleidfa ehangach. Roedd y rhain yn cynnwys cyfrolau a oedd yn rhan o gyfres Prifysgol Cymru 'Y Brifysgol a'r Werin', megis Hanes athroniaeth: o Descartes i Hegel (1932) gan R.I. Aaron, Athro Athroniaeth y Brifysgol; cyfieithiad o waith E.H. Carr, Athro Gwleidyddiaeth Ryngwladol y Brifysgol, Cydberthynas y gwledydd wedi'r cyfamodau heddwch (1938) a Hanes datblygiad gwyddoniaeth (1948) gan Rhiannon Davies a'i gŵr Mansel Davies, Athro Cemeg y Brifysgol. Ceir hefyd lyfrau megis Mawr a bach, sef sêr ac electronau (1936) gan Gwilym Owen, Athro Ffiseg y Brifysgol a oedd yn adnabyddus am ei ddarlithoedd cyhoeddus ar Ffiseg drwy'r Gymraeg. Erbyn y 1950au hefyd roedd nifer o gyrsiau allanol amrywiol cyfrwng Cymraeg neu ddwyieithog. Er enghraifft, yn 1957 cynigwyd cyrsiau cyfrwng Cymraeg mewn Llenyddiaeth Gymraeg Gyfoes, Astudiaethau'r Hen Destament a Hanes Lleol, a chyrsiau dwyieithog mewn Cymdeithaseg a Gwerthfawrogi Cerddoriaeth.

Dechreuwyd cynnig darpariaeth Gymraeg yn yr Adran Iaith a Llenyddiaeth Gymraeg rywdro ar ôl 1929, er bod yr adrannau Cymraeg ym Mangor a Chaerdydd wedi cynnig darpariaeth Gymraeg ymhell cyn hynny. Idwal Jones, Athro Addysg a benodwyd i'r gadair Addysg yn Aberystwyth yn 1939, oedd yr unigolyn cyntaf i ddechrau dysgu pwnc heblaw'r Gymraeg drwy gyfrwng y Gymraeg yn swyddogol ym Mhrifysgol Cymru. Yn ôl Bobi Jones (1997):



| Centre | Year | No. of Meetings | Subject | Tutor | Enrolled Students M. | Enrolled Students W. | Effective Students M. | Effective Students W. | Language |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| Pembrokeshire : (5) | | | | | | | | | |
| Abercych | 4 | 18 | Sociology | Mr. Josiah Davies, M.A. | 5 | 3 | 4 | 2 | B. |
| Narberth | 2 | 24 | Evolution of Modern Europe | Mr. Brynmor Thomas, M.A. | 7 | 6 | 3 | 3 | E. |
| Solva | 2 | 24 | Development of Modern Europe | Mr. Josiah Davies, M.A. | 5 | 8 | 5 | 5 | E. |
| Tenby | 4 | 24 | Appreciation of Art | Mr. Arthur Giardelli, M.A. | 3 | 12 | 2 | 9 | E. |
| Tenby | 2 | 24 | Appreciation of Music | Mr. Arthur Giardelli, M.A. | 2 | 12 | 1 | 11 | E. |
| SESSIONALS (30) | | | | | | | | | |
| Cardiganshire : (9) | | | | | | | | | |
| Aberystwyth | | 20 | German Literature and Society | Dr. Anita Williams | 4 | 6 | 3 | 4 | E. |
| Aberystwyth | | 20 | Dogs of the World | Mr. C. L. B. Hubbard | 15 | 7 | 12 | 7 | E. |
| Aberystwyth | | 20 | Appreciation of Music | Mr. Brien Stait, A.R.M.C.M. | 4 | 9 | 4 | 8 | E. |
| Aberystwyth | | 20 | Introduction to Bird Study | Mr. W. M. Condry, M.A. | 11 | 7 | 11 | 7 | E. |
| Borth | | 20 | Social Anthropology | Mr. Brynmor Thomas, M.A. | 5 | 6 | 5 | 4 | E. |
| Cardigan | | 20 | Appreciation of Music | Mrs. J. Osborne Thomas, B.A. | 5 | 18 | 5 | 14 | B. |
| Felinfach | | 20 | Old Testament Studies | Rev. E. Pryce Jones, M.A. | 7 | 9 | 7 | 9 | W. |
| Gorsgoch | | 20 | Contemporary Welsh Literature | Rev. E. Pryce Jones, M.A. | 4 | 10 | 2 | 8 | W. |
| Pontarfynach | | 20 | Local History | Mr. D. Hughes Lewis, B.A. | 6 | 4 | 5 | 4 | W. |

Arlwy'r Adran Efrydiau Allanol, 1957 (llun: Archif Prifysgol Aberystwyth)

"Mae llawer o ddiolch iddo fod y Gymraeg wedi datblygu fel cyfrwng dysgu safonol a chydnabyddedig yn y Brifysgol. O dan ei arweiniad ef y datblygodd adran addysg Aberystwyth yn ganolfan o bwys yn rhyngwladol mewn efrydiau dwyieithog."

Un datblygiad pwysig oedd cychwyn cwrs atodol i athrawon yn yr Adran Addysg yn y Brifysgol mewn astudiaethau dwyieithog yn 1952-53.

Olynwyd Idwal Jones fel Athro a Deon y Gyfadran Addysg gan Jac L. Williams yn 1960. Gweithiodd i sefydlu Addysg fel pwnc gradd a addysgir drwy'r Gymraeg. Noda Bobi Jones (2008):

"Erbyn adeg ei farw (1977) yr oedd dros gant o fyfyrwyr ymhlith aelodau'r Adran yn gwneud o leiaf ran o'u gwaith trwy'r Gymraeg. Trefnodd gyfarfodydd pythefnosol am flynyddoedd lawer i lunio rhestri o dermau ar ddysgu holl bynciau ysgol a choleg trwy'r Gymraeg, yna eu gyrru ymlaen i Bwyllgor Termau Cyfadran Addysg y Brifysgol, a'r cyfan yn arwain maes o law i gyhoeddi Geiriadur Termau. Heb fod y gwaith hwn wedi'i wneud, buasai addysg Gymraeg yng Nghymru yn bur aneffeithiol. "

Bu datblygiadau eraill yn y 1960au, megis sefydlu'r Gymdeithas Wyddonol Gymraeg gyntaf gan Guto Roberts, Iolo ap Gwynn a'r diweddar Dyfrig Jones, gyda'r tri yn mynd ymlaen i fod yn wyddonwyr amlwg, ac agor y neuaddau preswyl cyfrwng Cymraeg cyntaf, Neuadd Ceredigion i ddynion a Neuadd Davies Bryan i ferched yn 1968. Er hyn, gweddol brin oedd y ddarpariaeth Gymraeg, yn addysgol ac yn weinyddol. Ar ddiwedd y 1950au, mabwysiadodd Prifysgol Cymru bolisi o benodi darlithwyr cyfrwng Cymraeg, yn bennaf ym Mangor ac Aberystwyth, a chafwyd rhyw 24 ohonynt ar draws Cymru erbyn y 1970au (Jones, 2003).

Gwelwyd felly ychydig o dwf, megis y ddarlithyddiaeth cyfrwng Cymraeg yr oedd Geraint H. Jenkins wedi'i benodi iddi yn 1968 ym maes Hanes (Jenkins, d.d.). Fodd bynnag, mae Llinos Dafis yn cofio nifer o fyfyrwyr yn gwrthod cofrestru ar ddechrau tymor yr hydref 1961 gan nad oedd y ffurflenni ar gael yn Gymraeg (Dafis, 2023). Dyma oedd cyfnod y gwelwyd cychwyn protestio torfol dros yr iaith, ac roedd agor y neuaddau preswyl cyfrwng Cymraeg yn ganlyniad i ymgyrch gan y myfyrwyr hefyd.

Erbyn 1974, roedd neuadd gymysg cyfrwng Cymraeg wedi agor, sef Neuadd Pantycelyn. Yn yr un flwyddyn, sefydlwyd Undeb Myfyrwyr Cymraeg Aberystwyth (UMCA) i gynrychioli buddiannau myfyrwyr Cymraeg eu hiaith yn y Brifysgol. Gwelwyd dysgu cyfrwng Cymraeg mewn pynciau newydd, megis Drama, yn y 1970au, ac yn 1980 sefydlwyd y Radd Allanol drwy gyfrwng y Gymraeg. Roedd y cynllun yn seiliedig ar ddarpariaeth fewnol y Brifysgol, ac roedd yn cynnwys graddau yn y Gymraeg, Hanes Cymru, Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ac Astudiaethau Celtaidd, i fyfyrwyr allanol, rhan amser. Yn fuan wedyn, yn 1982, sefydlwyd Canolfan Astudiaethau Addysg (CAA) Cymru, sef cyhoeddwr deunydd addysgiadol o safon yn Gymraeg a Saesneg, a oedd yn golygu nad oedd angen i athrawon greu eu holl adnoddau addysgol Cymraeg eu hunain bellach (Golwg360, 2020).

Er bod rhagor o ddarpariaeth ar gael erbyn y 1980au a'r 1990au – er enghraifft, mewn pynciau megis Mathemateg, Daearyddiaeth, Gwleidyddiaeth a hyd yn oed Saesneg – roedd hyn yn tueddu i fod ar sail ewyllys da, gyda darpariaeth yn diflannu os nad oedd aelod penodol o staff ar gael. Yn 1998, cafwyd yr alwad gyntaf am goleg ffederal aml-safle (Wyn, 2016) a fyddai'n darparu addysg uwch cyfrwng Cymraeg i fyfyrwyr ar draws Cymru.

Nid oedd hyn yn syniad hollol newydd – hyrwyddwyd y syniad gan Undeb Myfyrwyr Cymru ac academyddion megis Alwyn D. Rees, Cyfarwyddwyr yr Adran Efrydiau Allanol, yn y 1970au, ac roedd galwadau am goleg Cymraeg un safle yn mynd yn ôl i 1951 (Davies, 2014; Jones, 2003). Fodd bynnag, o 1999 ymlaen, bu dros 10 mlynedd o ymgyrchu gan fudiadau megis Cylch yr Iaith a Chymdeithas yr Iaith, a oedd yn cynnwys academyddion blaenllaw megis y diweddar Dr Meredydd Evans, Dafydd Glyn Jones a'r Athro Mererid Hopwood. Chwaraeodd UMCA rôl bwysig, gyda llywyddion a swyddogion megis Catrin Dafydd (bellach yn awdur adnabyddus), Osian Rhys, Dr Menna Machreth a'r Parchedig Dr Rhys Llwyd yn arwain. Yn 2004, adroddodd y BBC ar seithfed protest myfyrwyr y Brifysgol mewn deg mis, a pharhaodd  y protestiadau tan 2007, gan gynnwys gorymdeithiau, protest ar ben to'r Adeilad Gwyddorau Ffisegol, meddiannu Llyfrgell Hugh Owen, rhwystro'r ffordd yn agos i fynedfa'r Brifysgol a phaentio sloganau (BBC, 2004a; BBC, 2004b; BBC, 2006; Crump, 2006; North Wales Live, 2007).

Yn y cyfamser, bu rhagor o ddatblygiadau. Cyhoeddwyd cyfres o lawlyfrau ym maes Busnes gan Nerys Fuller-Love (Marchnata a Cyfrifeg) a'r Athro Ken Richards (Y Gyfraith a Busnes) o'r Ysgol Fusnes yn ystod y 1990au a rhedodd MSc Entrepreneuriaeth, cynllun meistr cyfrwng Cymraeg yn yr Ysgol Fusnes, rhwng 1999 a 2004. Yn 2000-01, daeth Cronfa Datblygu Darpariaeth Gymraeg ar gael i ariannu datblygiadau drwy CCAUC (HEFCW). ). Sefydlwyd Canolfan Edward Llwyd yn 2002 i ddatblygu darpariaeth ac adnoddau i ddysgu gwyddoniaeth ar lefel addysg uwch. Erbyn 2005, sefydlwyd y Ganolfan Datblygu Addysg Cyfrwng Cymraeg (newidiwyd yr enw i'r Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg nes ymlaen) a ddaeth yn gyfrifol am y Gronfa.


Daeth aelodau staff academaidd y Brifysgol yn weithredol yn y paneli rhwydwaith, sef pwyllgorau o staff o brifysgolion ar draws Cymru a oedd yn cwrdd i drafod datblygu darpariaeth Gymraeg yn eu meysydd, gan gynnwys adnoddau a darpariaeth gydweithredol. Rhedodd y modiwl cydweithredol 'Methodoleg Maes' ym maes Daearyddiaeth am y tro cyntaf gyda myfyrwyr o Aberystwyth a Bangor yn 2005. Cynigwyd hefyd fodiwl Cyfraith Feddygol 100% drwy'r Gymraeg, gan gynnwys y deunydd darllen. Dechreuodd y myfyrwyr cyntaf ar ysgoloriaethau ymchwil yn 2005-06 gyda'r nod o hyfforddi cenhedlaeth newydd o ddarlithwyr cyfrwng Cymraeg, gyda Dr Hywel Griffiths, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a Dr Arwyn Edwards, Adran Gwyddorau Bywyd, sydd bellach yn uwch-ddarlithwyr, yn ennill eu doethuriaethau drwy'r cynllun. Ymunodd Dr Rachel Rahman â'r Brifysgol hefyd ym maes Seicoleg drwy'r cynllun cymrodoriaeth addysgu ôl-ddoethuriaeth. Cyllidwyd hefyd nifer o brosiectau eraill i ddatblygu modiwlau ac adnoddau. Y prosiect mwyaf hirhoedlog, efallai, yw Gwerddon, y cyfnodolyn aml-ddisgyblaethol a gyhoeddodd ei rifyn cyntaf yn Ebrill 2007, dan olygyddiaeth yr Athro Ioan Williams, cyn-bennaeth yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, a oedd yn dechrau ar y dasg o danseilio 'r[h]agfarn yn erbyn cyhoeddi gwaith academaidd yn y Gymraeg' (Williams, 2007: 5). Mae bellach wedi cyrraedd rhifyn 35 ac wedi esgor ar Gwerddon Fach, sef cyfres o erthyglau byrion i gynulleidfa ehangach ar y cyd â Golwg360, gyda'r Athro Anwen Jones, Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, yn olygydd, a Dr Hywel Griffiths, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, yn is-olygydd.


Er bod grŵp llywio CCAUC wedi gwrthod y syniad o greu Coleg Ffederal yn 2006 yn dilyn adroddiad gan y cwmni ymgynghorol Arad, daeth newid ar fyd yn dilyn etholiad 2007 a'r cytundeb 'Cymru'n Un' rhwng y Blaid Lafur a Phlaid Cymru a ymrwymodd i wella addysg uwch cyfrwng Cymraeg. Yn 2008 sefydlwyd Bwrdd Cynllunio'r Coleg Ffederal dan arweiniad yr Athro Robin Williams a chyflymodd y gwaith datblygu.

Prifysgol Aberystwyth oedd y cyntaf i benodi Swyddog Cydlynu Darpariaeth Gymraeg yn Awst 2009 dan nawdd y Ganolfan Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg. Yn fuan wedyn, roedd swyddog ym mhob prifysgol i gynorthwyo â'r gwaith o weinyddu prosiectau, ceisio am grantiau a threfnu darpariaeth gydweithredol. Ym Medi 2010, cyhoeddwyd y byddai'r coleg ffederal yn cael ei sefydlu yn 2011/12, gyda'r enw newydd 'Coleg Cymraeg Cenedlaethol'. Daeth y Swyddogion Cydlynu Darpariaeth Gymraeg yn Swyddogion Cangen (teitl llawer mwy bachog, mae rhaid dweud!) wrth i bob prifysgol ddechrau ar y gwaith o sefydlu cangen leol o'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2011. Lansiwyd Cangen Prifysgol Aberystwyth ym mis Mawrth 2012, gydag Anwen Jones o'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu yn gadeirydd arni. Bellach, wrth gwrs, mae'r Athro Anwen Jones yn Ddirprwy Is-ganghellor gyda chyfrifoldeb am y Gymraeg o fewn y Brifysgol, ac mae gweddill y stori i'w gael yn y llyfryn bach hwn.

# Arddangosfa yn Neuadd Pantycelyn, 2014, ar ymgyrch y Coleg Cymraeg




**Ffynonellau**


BBC (2004a). 100 o Fyfyrwyr yn Protestio, 9 Chwefror. [Ar-lein] Cyrchwyd 29 Awst 2023 o http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3470000/newsid_3474500/3474515.stm.

BBC (2004b). Dal i Brotestio dros Addysg Gymraeg, 7 Mai. [Ar-lein] Cyrchwyd 29 Awst 2023 o http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_3690000/newsid_3694500/3694577.stm.

BBC (2006). Protest dros Addysg Gymraeg, 26 Hydref. [Ar-lein] Cyrchwyd 29 Awst 2023 o http://news.bbc.co.uk/welsh/hi/newsid_6080000/newsid_6087900/6087996.stm.

Crump, E. (2006). Welsh Language Activists Stage Rooftop Protests, 4 Mai. [Ar-lein] Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/welsh-language-activists-stage-rooftop-2894032.

Dafis, Ll. (2013). Llinos Dafis. Yn Tomos, A. a Davies, T.E.C. (Goln) Merched Peryglus. Aberystwyth: Honno, 17-18.

Davies, J. (2014). Fy Hanes i. Tal-y-Bont: Y Lolfa.

Golwg360 (2020). Cwmni Teuluol yn Prynu CAA Cymru gan Brifysgol Aberystwyth. [Ar-lein]. Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://golwg.360.cymru/newyddion/cymru/567045-cwmni-teuluol-prynu-cymru-brifysgol-aberystwyth.

Jenkins, G.H. (dim dyddiad). Atgofion Abertawe – Yr Athro Geraint H. Jenkins: Hanesydd, Academydd ac Awdur. [Ar-lein]. Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://www.swansea.ac.uk/cy/academi-hywel-teifi/newyddion/geraint-jenkins/.

Jones, D. G. (2013). Problemau Prifysgol a Phapurau Eraill. Llanrwst: Gwasg Carreg Gwalch.

Jones, R.M. (1997). Jones, Idwal (1899-1966), Addysgydd ac Athro Prifysgol. Y Bywgraffiadur Cymreig. Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://bywgraffiadur.cymru/article/c4-JONE-IDW-1899.

Jones, R.M. (2008). Williams, Jac Lewis (1918-1977), Addysgydd, Awdur. Y Bywgraffiadur Cymreig. Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://bywgraffiadur.cymru/article/c6-WILL-LEW-1918.

North Wales Live (2007). Student Protest for all-in-Welsh Federal College, 19 Chwefror. [Ar-lein] Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://www.dailypost.co.uk/news/north-wales-news/student-protest-all-in-welsh-federal-college-2880839.

Rees, Mati (1972). Lan yn Aber: Yn Yr Ugeiniau. Yn Rees, S.G. (Gol.) Our Golden Years: Aber in the Twenties. Aberystwyth: Coleg Prifysgol Cymru, 66-69.

Hughes, J. (1928). Y Gymdeithas Geltaidd. Yn Morgan, I. (Gol.) The College by the Sea (A Record and Review). Aberystwyth: Cyngor Cynrychiadol y Myfyrwyr mewn cydweithrediad â Chyngor Coleg Prifysgol Cymru: 270-278.

Williams, I. (2007). Golygyddol. Gwerddon 1(1): 5.

Wyn, I. (2016). Yr Ymgyrchwr: Cylch yr Iaith a Phwyllgor Ymgyrch y Coleg Cymraeg Ffederal. Yn Evans, E. a Jones, R. A. (Goln) Merêd: Dyn ar Dân. Tal-y-bont: Y Lolfa, 121-129.

Y Gwyliedydd (1889). Nodiadau Wythnosol, 15 Mai, 4.

# Addysg ac Astudiaethau Plentyndod



## Dr Siân Lloyd-Williams

**Sefydlwyd yr Ysgol Addysg ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 1892, ac mae ymhlith yr adrannau Addysg hynaf yn y Deyrnas Unedig.**

Dros 130 o flynyddoedd yn ddiweddarach mae'r adran yn parhau i hyfforddi gweithlu'r dyfodol ac yn cynnig llwybrau gyrfa amrywiol, yn y byd addysg a thu hwnt. Erbyn hyn mae'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg o fewn yr adran yn sylweddol ac mae'n rhan annatod o'n darpariaeth. Mae lefel y ddarpariaeth bresennol hefyd yn adlewyrchiad o'r effaith gadarnhaol y gall swydd benodedig cyfrwng Cymraeg a chefnogaeth staff ei gael o fewn adran.

Mi ddechreuais i swydd yn yr Adran Addysg yn Aberystwyth, dan nawdd cynllun staffio y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, ym mis Medi 2012. Roeddwn eisoes wedi derbyn ysgoloriaeth ymchwil gan y Coleg i gwblhau doethuriaeth tra yn fyfyriwr yn yr Adran Addysg ym Mhrifysgol Bangor, ond gyda chyfnod yr ysgoloriaeth honno yn dod i ben roedd amseriad y swydd yn Aberystwyth yn gyfle gwych i mi barhau gyda fy ngyrfa academaidd o fewn y byd Addysg. Wrth fy mhenodi i i'r swydd yn Aberystwyth y bwriad oedd cynyddu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr adran Addysg. Ar yr adeg honno, roedd yr adran yn cynnig cynllun gradd israddedig sef Astudiaethau Plentyndod/Childhood Studies a hefyd nifer o gynlluniau gradd cyfun gydag adrannau eraill ar draws y brifysgol. Gymraeg.


Cynllun gradd oedd yn cael ei ddarparu yn bennaf drwy gyfrwng y Saesneg oedd Astudiaethau Plentyndod/Childhood Studies, er bod nifer fechan o fodiwlau yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg. Fodd bynnag, roedd niferoedd da o fyfyrwyr yn dilyn y modiwlau a ddarparwyd drwy gyfrwng y Gymraeg ac roedd yr adran yn eiddgar i ddatblygu'r ddarpariaeth hon ymhellach. Roedd ethos Gymreig gref eisoes yn bodoli o fewn yr adran ac felly roedd yr awydd a'r gefnogaeth i ddatblygu'r ddarpariaeth o fewn yr adran yn uchel.

Dros y blynyddoedd nesaf, a gyda chefnogaeth y Coleg Cymraeg, aethpwyd ati i gynllunio, dilysu a chyflwyno nifer o fodiwlau newydd drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae'r ddarpariaeth wedi datblygu ymhellach yn y blynyddoedd diweddar wrth i'r adran gynnig cynlluniau gradd newydd mewn Addysg ac yn fwy diweddar Astudiaethau Plentyndod Cynnar gyda Statws Ymarferydd Blynyddoedd Cynnar.

Ddeng mlynedd ers fy mhenodiad yn 2012, a chyda ymrwymiad parhaus yr adran a dyfalbarhad a chefnogaeth staff rydym bellach yn gallu cynnig 80% o'n darpariaeth drwy gyfrwng y Gymraeg gyda rhai myfyrwyr israddedig ar gynlluniau gradd cyfun yn gallu dilyn pob elfen o'u gradd drwy gyfrwng y Gymraeg.

Mae llawer o'n myfyrwyr hefyd wedi gweithio fel llysgenhadon i'r Coleg dros y blynyddoedd diwethaf ac rydym yn falch iawn o'r cysylltiad cyson yma rhwng yr adran a'r Coleg Cymraeg. Mae ein hymrwymiad i'r Gymraeg a lefelau uchel o staff cyfrwng Cymraeg hefyd yn golygu bod gennym y gallu i wneud cyfraniadau hanfodol i gynllun meistr Cenedlaethol newydd a ddarperir i athrawon ar draws Cymru. Mae MA Addysg (Cymru) yn gymhwyster a gynigir gan 7 prifysgol ar y cyd, ar draws Cymru, a gobeithiwn barhau i gynnig y gefnogaeth cyfrwng Cymraeg yma ar gynlluniau tebyg i'r dyfodol wrth i ni gydnabod pwysigrwydd manteisio ar sgiliau dwyieithog mewn lleoliadau blynyddoedd cynnar ac ar draws y gweithle addysg.

Mae'r swydd wreiddiol, a ariannwyd gan y cynllun staffio, hefyd wedi agor drysau niferus i mi fel unigolyn drwy fy ngalluogi i ddatblygu fy sgiliau fel darlithydd ac ymchwilydd ac i wneud cysylltiadau gyda chymheiriaid mewn prifysgolion ar draws Cymru, a hyn oll drwy gyfrwng y Gymraeg. Rwyf wedi cadeirio Panel Astudiaethau Addysg, Plentyndod ac Ieuenctid y Coleg ers sawl blwyddyn bellach ac wedi arwain cynadleddau cyfrwng Cymraeg ar-lein (a ariannwyd gan y Coleg) a oedd yn cynnwys sgyrsiau amrywiol gan arbenigwyr ar hawliau plant a chyflogadwyedd yn y blynyddoedd cynnar.




Prysor Davies yn cyflwyno papur Dr Siân Lloyd-Williams ac yntau yn y gynhadledd ar-lein 'Llais y Plentyn' dan nawdd y Coleg, Chwefror 2021: mae'r cyflwyniad ar gael ym Mhorth Adnoddau'r Coleg

Rwyf hefyd yn cyfrannu at Rwydwaith Ymchwil Cydweithredol Addysgol ar Addysg Ddwyieithog a'r Gymraeg ac yn gweithio ar sawl darn o ymchwil sydd yn ymwneud â'r Gymraeg e.e. adroddiad diweddar i Lywodraeth Cymru, 'Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19' (Thomas et al, 2021).
Ddeng mlynedd ers fy mhenodiad ac mae'r ffocws ar y Gymraeg yn parhau o fewn yr adran ac rydym bellach yn canolbwyntio fwyfwy ar ymchwil yn ymwneud â'r Gymraeg. Ym mis Medi 2022, wedi i ni dderbyn ysgoloriaeth ymchwil gan y coleg, fe benodwyd Anne Uruska, unigolyn profiadol o fewn y maes Cymraeg i oedolion, i gwblhau doethuriaeth ar 'Profiadau, cymhelliant a dilyniant dysgwyr Cymraeg rhwng 16 a 20 mlwydd oed. Sut mae cryfhau y dilyniant ieithyddol ar gyfer dysgwyr 16-18 mlwydd oed a dysgwyr dros 18 mlwydd oed?' Unwaith eto, mae hyn yn pwysleisio pwysigrwydd y cyllid a geir gan y coleg er mwyn ariannu ymchwil cyfrwng Cymraeg hanfodol o fewn prifysgolion ac er mwyn rhoi cyfle i unigolion gyfrannu at yr addysgu yn y sector addysg uwch.

Yn y dyfodol, ein nod fel adran yw sicrhau ein bod yn parhau i gyfuno'r gorau o'n traddodiad ni am ragoriaeth academaidd â'r dulliau diweddaraf oll o ddysgu, ymgysylltu â'r myfyrwyr ac ymchwilio er mwyn cyfoethogi profiad ein myfyrwyr. Mae gennym ymrwymiad cryf i addysgu trwy'r Gymraeg ac rydym wedi ymrwymo i ddatblygu'n darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach. Yn ogystal, rydym hefyd yn cymryd rhan flaenllaw mewn ymchwil pwysig am y Gymraeg, ar gyfer y Gymraeg ac yn y Gymraeg, gan hyderu, oherwydd hyn, y bydd yr adran yn parhau i ffynnu mewn 130 o flynyddoedd!

**Ffynonell**

Thomas, E. M., Lloyd-Williams, S. W., Parry, N. M., ap Gruffudd, G. S., Parry, D., Williams, G. M., Jones, D., Hughes, S., Evans, R. A. a Brychan, A. (2021). Cael mynediad i'r Gymraeg yn ystod pandemig COVID-19 - heriau a chefnogaeth i aelwydydd di-Gymraeg. Caerdydd: Llywodraeth Cymru. [Ar-lein]. Cyrchwyd 17 Medi 2023 o https://hwb.gov.wales/api/storage/62b5b0d8-d358-4d12-9c20-613a879feaf3/covid-rs3-final-cy.pdf.

# Amaethyddiaeth

## Dr Hefin Williams

**Mae'r diwydiant amaethyddol yn rhan annatod o economi cefn gwlad Cymru. Amcangyfrifwyd bod amaethyddiaeth yng Nghymru gwerth dros hanner biliwn o bunnoedd yn flynyddol ac mae hyn yn uwch fel canran o economi Cymru na'r Deyrnas Unedig yn ei chyfanrwydd. Mae pwysigrwydd y diwydiant i'w weld yn arbennig mewn ardaloedd gwledig megis Ceredigion a Phowys gyda dros 12% o'r gweithlu o fewn y diwydiannau amaethyddiaeth, coedwigaeth a physgota.**

Mae'r diwydiant amaethyddol yn rhan annatod o ddiwylliant Cymru ac yn gadarnle i'r iaith Gymraeg gyda'r ganran uchaf o weithwyr (43%) yn siaradwyr Cymraeg o blith unrhyw sector yn y wlad. O ganlyniad mae datblygiadau addysgu amaeth trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth wedi bod yn rhan annatod wrth gynyddu nifer y graddedigion amaeth sydd â'r medr a'r hyder i weithio'n ddwyieithog ar hyd bob cam o'r gadwyn fwyd o giât y fferm i gyflenwyr, marchnadoedd da byw a chynghorwyr fferm.



Fe ddechreuodd y buddsoddiad diweddar mewn addysgu Amaethyddiaeth trwy gyfrwng y Gymraeg yn nyddiau olaf y Sefydliad Gwyddorau Gwledig (IRS), cyn parhau a chynyddu wrth i'r adran uno gydag eraill i greu Sefydliad y Gwyddorau Biolegol, Amgylcheddol a Gwledig (IBERS). Penodwyd Dr Hefin Williams yn ddarlithydd yn yr Amgylchedd Amaethyddol ym mlwyddyn gyntaf cynllun staffio'r Coleg gyda Dr Sharon Huws a Dr Manod Williams yn dilyn yn y blynyddoedd canlynol. Wedi i Sharon adael y Brifysgol fe benodwyd Dr Rhys Aled Jones fel darlithydd Gwyddor Da Byw. Fe wnaeth Sharon, Manod a Rhys alluogi'r sefydliad i ddatblygu darpariaeth a oedd yn pontio'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg ar y rhyngwyneb rhwng Amaethyddiaeth, Gwyddor Anifeiliaid a Biofilfeddygaeth gyda ffocws ar fodiwlau a oedd yn trafod bioleg a chynhyrchu da byw.

Yn fwy diweddar mae dau berson ifanc arall sef Cennydd Jones a Nia Davies wedi eu penodi fel darlithwyr mewn Rheolaeth Glaswelltir Amaethyddol a Rheolaeth Busnes Fferm ac fe fydd y ddau yn galluogi'r Adran Gwyddorau Bywyd i ymestyn ein darpariaeth cyfrwng Cymraeg ymhellach. Penodwyd Cennydd a Nia fel olynwyr i ddau o hoelion wyth addysgu amaethyddiaeth ym Mhrifysgol Aberystwyth sef Dr Iwan Owen a Penri James. Bu'r ddau yn ganolog i ymdrechion y Brifysgol i ehangu ein darpariaeth amaethyddol cyfrwng Cymraeg ac yn allweddol wrth gynnal a datblygu naws ddwyieithog yr adran i genedlaethau o fyfyrwyr.

Mae cynllun ysgoloriaethau ymchwil y Coleg hefyd wedi chwarae rôl allweddol wrth ddatblygu'r ddarpariaeth gyda Becca Roberts, Mari Davies a Gwenllian Jenkins yn ymuno â Manod a Cennydd fel deiliaid ysgoloriaeth o fewn yr adran.

Mae darpariaeth cyfrwng Cymraeg ym maes amaethyddiaeth yn Aberystwyth yn awr yn cynnwys modiwlau sydd yn cwmpasu gwyddor a chynhyrchu da byw, rheolaeth busnes fferm, technoleg amaethyddol, rheolaeth glaswellt a chnydau a'r rhyngwyneb rhwng amaethyddiaeth a'r amgylchedd. Yn ystod 2022 cyrhaeddwyd carreg filltir nodedig wrth i fwy o fyfyrwyr ddilyn modiwl ('Bwyd, Ffermio a'r Amgylchedd') na'r modiwl cyffelyb cyfrwng Saesneg am y tro cyntaf erioed.

Mae astudio modiwlau trwy gyfrwng y Gymraeg yn awr yn cael ei ystyried yn 'norm' gan garfan sylweddol o fyfyrwyr Amaethyddol.

Erbyn hyn ceir cenhedlaeth o raddedigion amaethyddiaeth sydd wedi cwblhau canran sylweddol o'u hastudiaethau addysg uwch trwy gyfrwng y Gymraeg ac sydd yn llysgenhadon i'r iaith ac i'r ddarpariaeth o fewn y diwydiant. Fe fydd yr unigolion hyn yn hollbwysig i'r ymdrechion i gynnal ac i annog ein cymunedau gwledig cyfrwng Cymraeg i ffynnu ar hyd a lled Cymru tra bod eraill o'r rhain wedi aros ychydig yn agosach i Aberystwyth ac yn rhan annatod o'r ymdrech a sefydlwyd dros 15 mlynedd yn ôl i 'Dyfu ein darlithwyr amaethyddol ein hunain'.



Dr Manod Williams, darlithydd mewn Gwyddor Anifeiliaid, wrth ei waith

# Ysgol Fusnes Aberystwyth

## Jonathan Fry

**Erbyn heddiw yn Ysgol Fusnes Aberystwyth mae yna bum aelod o staff sydd yn rhugl yn y Gymraeg sef:**

• Yr Athro Andrew Thomas (Pennaeth Adran)
• Nerys Fuller-Love (Darllenydd Busnes a Rheolaeth)
• Dr Wyn Morris (Uwch Ddarlithydd Busnes a Rheolaeth)
• Jonathan Fry (Darlithydd Busnes a Rheolaeth)
• Emma Davies (Darlithydd Cyswllt Cyfrifeg a Chyllid)

Ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2012, mae yna x o fyfyrwyr wedi derbyn Ysgoloriaethau Cymhelliant o fewn Ysgol Fusnes Aberystwyth.




Yr Athro Dylan Jones-Evans yn y gynhadledd entrepreneuriaeth, 2013

Dyma linell amser o lwyddiannau a cherrig milltir amlycaf yr adran ers sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol:

**2012**
Datblygu'r modiwl craidd 'Cyflwyniad i Reolaeth'
Cafodd y modiwl ei gynnig am y tro cyntaf yn yr Ysgol Fusnes. Nerys Fuller-Love oedd yn cydlynu'r modiwl, yn dilyn cyfnod o ddatblygu deunyddiau dysgu gyda'r cyhoeddwyr Coleg Prifysgol Cymru a sicrhau bod yna rywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn yr adran yn ystod y 90au. Roedd yna saith o fyfyrwyr wedi cofrestru ar y modiwl hwnnw.

**2013**
Cynhadledd Entrepreneuriaeth a Busnes
Nod y gynhadledd oedd gwella'r ddarpariaeth sy'n bodoli mewn entrepreneuriaeth a busnes ym mhrifysgolion Cymru. Roedd y gynhadledd yn adeiladu ar y radd MSc Entrepreneuriaeth a fu'n rhedeg rhwng 1999-2004 ym Mhrifysgol Aberystwyth.

Yn y gynhadledd cafwyd cyflwyniadau gan Elin Jones (Aelod Seneddol) yn trafod 'Pwysigrwydd Entrepreneuriaeth yng Nghefn Gwlad Cymru' a'r Athro Dylan Jones-Evans yn cyflwyno'r pwnc 'Entrepreneuriaeth yng Nghymru' yn ogystal â chyflwyniadau gan academyddion blaenllaw eraill. Cafwyd hefyd sesiwn benodol o gyflwyniadau gan gyn-fyfyrwyr y cynllun gradd MSc Entrepreneuriaeth. Roedd y digwyddiad yn cynnwys digon o luniaeth ac adloniant gan fod yna ginio yn y Llyfrgell Genedlaethol ar y nos Iau gyda pherfformiad gan Meibion y Mynydd. Roedd yn gynhadledd lwyddiannus iawn gyda 47 o bobl yn cofrestru.

**2014**
Penodiad staffio cyntaf gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r Ysgol Fusnes (Robert Bowen) a Gwobr 'Myfyriwr Gorau sy'n Astudio Modiwlau cyfrwng Cymraeg'

Roedd Robert Bowen yn ymchwilydd PhD wedi ei benodi fel darlithydd cyntaf yr Ysgol Fusnes fel rhan o gynllun staffio'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Roedd ei ymchwil doethuriaeth yn canolbwyntio ar gymharu ffactorau allweddol sy'n arwain at ryngwladoli busnesau bach a chanolig mewn diwydiant yng Nghymru a Llydaw, Ffrainc. Roedd ei brofiad blaenorol yn cynnwys 7 mlynedd yn gweithio fel tiwtor cyfrwng Saesneg Busnes yn Nantes, Ffrainc, yn ogystal â gweithio fel Swyddog Marchnata i ranbarth rygbi'r Scarlets yn Llanelli, lle'r oedd yn gyfrifol am ymchwilio a dylunio Amgueddfa addysgol ryngweithiol y rhanbarth, wedi ei lleoli ym Mharc y Scarlets.

Dyma hefyd oedd y flwyddyn gyntaf i wobr ar gyfer y 'Myfyriwr Gorau sy'n Astudio Modiwlau cyfrwng Cymraeg' gael ei gwobrwyo. Noddwyd y wobr ariannol gan y cwmni 'Y Gorau o Gymru' a oedd hefyd yn cynnig cyfnod o brofiad gwaith i'r enillydd. Dyma'r enillwyr:

- Gwenno Llewelyn (2014)
- Megi Williams (2015)
- Bethan Jones (2016)
- Ffion Davies (2017)
- Rhydian Butler-Rees (2019)
- Lili Price-Jones (2020)
- Hannah Jones ac Ilan Jones (2021)
- Sioned Raymond (2022)

**2015**
Datblygu'r modiwl 'Prosiect Ymchwil mewn Rheolaeth, Busnes a Marchnata'
Roedd yr adran wedi sicrhau bod y modiwl yma ar gael trwy gyfrwng y Gymraeg er mwyn sicrhau bod y rhan fwyaf o gynlluniau gradd yr Ysgol Fusnes yn gymwys ar gyfer yr Ysgoloriaeth Cymhelliant.

**2016**
Cynnal cystadleuaeth Ffau'r Ddraig
Dyma'r tro cyntaf i'r gystadleuaeth gael ei threfnu yn gyfan gwbl trwy gyfrwng y Gymraeg. Cafodd y gystadleuaeth ei thargedu'n benodol at ddisgyblion Dylunio a Thechnoleg Ysgol Penweddig.

Yr her i'r disgyblion oedd creu cynnyrch ar thema "Natur". Prosiect Aaron Bull a Thomas Rees-Jones enillodd y wobr gyntaf.

Y beirniaid oedd:
- Llion Pughe - cyn-fyfyriwr o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes a Chyfarwyddwr Y Gorau o Gymru.
- Rhiannon Rees - cyn-fyfyriwr o'r Ysgol Rheolaeth a Busnes a Chyfarwyddwr Rhiannon Rees Property. Erbyn heddiw, mae hi wedi cyd-sefydlu cwmni o'r enw PlantSea.
- Sion Edwards - Cyfarwyddwr Aber Letting
- Lowri Steffan - actores a pherchennog siop Dots yn Aberystwyth. Erbyn heddiw, mae hi wedi ymuno â'r cwmni digwyddiadau ac asiantaeth enwogion Haka Entertainment
- James Raw - entrepreneur lleol.

**2017**
Hysbysebwyd swydd Darlithydd Cyfrwng Cymraeg Mewn Rheoli Busnes a Mentergarwch Gwledig

**2018**
Yr ail benodiad staffio i'r Ysgol Fusnes gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol (Jonathan Fry)

Yn wreiddiol o Gaerdydd, mae Jonathan yn gyn-fyfyriwr Prifysgol Metropolitan Caerdydd, wedi graddio gyda BA (Anrh) mewn Rheoli Digwyddiadau (2010), PgC Ymchwil Cymdeithasol (2014), MPhil (2014) a PGCE PcET (2018). Yn 2012, lansiodd ei gwmni gwerthuso digwyddiadau, Event Rater Cyf. Enillodd y cwmni wobr 'Cwmni Digidol Gorau' (Rhanbarth Cymru a De Lloegr) yng nghystadleuaeth Banc Lloyds yn 2014.

Ar hyn o bryd mae Jonathan yn gwneud ymchwil doethuriaeth yn archwilio'r cyflenwad a'r galw ac ystyriaethau ymddygiad defnyddwyr wrth brynu tocynnau lletygarwch/VIP ar gyfer digwyddiadau adloniant a chwaraeon.

**2019**
Datblygu'r modiwl 'Sgiliau Cyflogadwyedd ar gyfer Gweithwyr Proffesiynol'

Roedd y modiwl yma ar gael am y tro cyntaf fel modiwl ffurfiol yn y Gymraeg. Ers sefydlu'r modiwl, mae myfyrwyr wedi cwblhau cyfnodau o brofiad gwaith gyda sefydliadau megis:

- Cyngor Ceredigion (Gwerthuso'r Broses Recriwtio Ymgeiswyr – Adnoddau Dynol)
- Menter a Busnes (Cynorthwyydd Marchnata a Digwyddiadau).

**2020**
Cyhoeddi'r erthygl gyntaf yn y maes pwnc Busnes yn y cyfnodolyn Gwerddon. Cyhoeddodd Dr Wyn Morris a Dr Robert Bowen erthygl ar y testun:

"Egni adnewyddadwy: cyfle i ffermwyr arallgyfeirio mewn amgylchedd busnes heriol?"

**2021**
Datblygu'r modiwl 'Traethawd Estynedig'

Yr adran yn cydnabod ei bod yn bwysig datblygu'r modiwl yma trwy gyfrwng y Gymraeg gan fod pwysoliad y modiwl yn newid o 20 credyd i 40 credyd.

**2022**
Datblygu Deunyddiau a Phenodiadau o fewn y Brifysgol

Cyfraniad sylweddol gan Nerys Fuller-Love at ddatblygu e-Lyfr Cyfrifeg a Chyllid. Cyfraniad Nerys Fuller-Love a Jonathan Fry at ddeunyddiau entrepreneuriaeth ar gyfer y Prosiect Deunyddiau Digidol.

Yn ystod yr haf, penodwyd Nerys Fuller-Love fel 'Deon Cysylltiol Darpariaeth Academaidd trwy gyfrwng y Gymraeg' a Jonathan Fry yn 'Gadeirydd Cangen Coleg Cymraeg Cenedlaethol' Prifysgol Aberystwyth. Dengys hyn ymrwymiad a brwdfrydedd staff yr adran ar gyfer darpariaeth cyfrwng Cymraeg y Brifysgol heddiw ac i'r dyfodol.



Jonathan Fry, darlithydd mewn Busnes, wrth ei waith

# Y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd



## Dr Cathryn C. Charnell-White

**Fel Pennaeth Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth, rwyf yn llwyr werthfawrogi cefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, nid yn unig i'n Hadran ni, ond hefyd i'r ddisgyblaeth yn gyffredinol.**

Pan ddechreuais ar y swydd ym mis Awst 2013 roedd y Coleg yn newydd iawn i mi. Fodd bynnag, drwy'r panel pwnc, y Panel Iaith a Llên sy'n dod ag adrannau Cymraeg prifysgolion Cymru at ei gilydd i gynllunio'n strategol, buan iawn y dois i ddeall strwythurau'r Coleg a'i flaenoriaethau gogyfer cefnogi'r Gymraeg fel pwnc. Materion hyrwyddo, dysgu, ac ymchwil yw ffocws y Panel Iaith a Llên, ond roedd yn glir i mi o'r cychwyn cyntaf mai cydweithio a chefnogi ein gilydd oedd wrth wraidd ein cynllunio a'n gweithgarwch. Yn ystod degawd heriol iawn i'r Gymraeg fel pwnc Lefel A, daeth cydweithio â'n gilydd, ac â rhanddeiliaid eraill, yn fwyfwy amlwg fel nod amgen ein hymwneud â'r Coleg ac â'n cymuned academaidd ehangach.




Lansio Llawlyfr Hen Gymraeg gan Dr Alexander Falileyev (chwith) yn 2016. Cyhoeddwyd y llyfr dan nawdd Grant Bach y Coleg Cymraeg, dan arweiniad Dr Simon Rodway (de) - un o sawl prosiect Grant Bach dros y blynyddoedd. Mae'r e-lyfr ar gael ym Mhorth Adnoddau'r Coleg.

Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd Prifysgol Aberystwyth yw'r adran hynaf o'i bath yng Nghymru. Fe'i sefydlwyd yn 1875 a mater o falchder i mi, fel cyn-fyfyriwr yn ogystal â'r pennaeth presennol, yw bod ein Hadran ni wedi arwain datblygiadau disgyblaethol ar hyd y blynyddoedd: o gyflwyno'r Gymraeg ochr yn ochr ag ieithoedd Celtaidd eraill o dan Edward Anwyl a T. Gwynn Jones i gyflwyno ysgrifennu creadigol i'r cwricwlwm o dan Bobi Jones. Yn ystod y degawd diwethaf, mae Cynllun Staffio Academaidd a grantiau pynciol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol wedi bod yn gyfrwng i arloesi drachefn ac i rannu arbenigedd â'r sector ym maes Cymraeg Proffesiynol ac Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol.

Aberystwyth yw cartref Cymraeg Proffesiynol, sef cynllun BA arloesol sy'n arfogi myfyrwyr ar gyfer gweithle proffesiynol y Gymru gyfoes ddwyieithog. Mae modiwlau craidd y cynllun yn cyflwyno ystod o sgiliau galwedigaethol, gan gynnwys llunio adroddiadau, cofnodion a datganiadau i'r wasg; golygu copi a phrawfddarllen; cyfieithu ar y pryd; addasu testunau ar gyfer radio, teledu, neu ffilm; ac addasu testunau o ieithoedd eraill. Trefnir cyfleoedd ymarferol i fyfyrwyr roi'r profiadau hyn ar waith drwy drefnu Noson Llên a Chân flynyddol, drwy olygu a chynhyrchu cylchgrawn llenyddol yr Adran, Y Ddraig, ynghyd â dilyn modiwl profiad gwaith sy'n tynnu ar rwydwaith proffesiynol eang sy'n cwmpasu'r sector cyhoeddus, y sector preifat, a'r trydydd sector. Mae'r radd hefyd yn cynnig hyblygrwydd i fyfyrwyr ddilyn modiwlau ieithyddol, llenyddol a chreadigol ochr yn ochr â'r arlwy broffesiynol gyfoethog hon.

Sefydlwyd y radd Cymraeg Proffesiynol yn Aberystwyth yn 2012 a'i chefnogi rhwng 2013 a 2018 drwy'r Cynllun Staffio Academaidd. Gyda mewnbwn darlithydd Cymraeg Proffesiynol penodedig, sef Dr Rhianedd Jewell, llwyddwyd i ehangu'r cynllun gradd, ac i wreiddio sgiliau'r gweithle proffesiynol ar draws ein cwricwlwm. Cwrs i fyfyrwyr rhugl eu Cymraeg yw Cymraeg Proffesiynol, ond bellach caiff myfyrwyr ar hyd y continwwm ieithyddol ddilyn modiwlau ac iddynt ogwydd proffesiynol a galwedigaethol sy'n cwmpasu'r gweithle proffesiynol a sgiliau allweddol megis cyfieithu a golygu. Diolch i'r buddsoddiad cynnar gan y Coleg, gosodwyd sylfaen gref i adeiladu arni, ac er 2019 mae Aberystwyth wedi datblygu Cymraeg proffesiynol ymhellach fel pwnc a gynigir gyda'r Gyfraith ynghyd â Busnes a Rheolaeth.

Mater o falchder hefyd yw mai Aberystwyth yw cartref Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol. Hwn yw'r unig gynllun cenedlaethol o'i fath i gynnig hyfforddiant cyflawn i ddarpar gyfieithwyr yn ogystal â chyfleoedd i gyfieithwyr yn y sectorau preifat a chyhoeddus ddatblygu'n broffesiynol. Gellir dilyn y cwrs ar lefel Tystysgrif, Diploma, neu MA lawn, yn ogystal â dilyn modiwlau annibynnol sy'n cynnig cyflwyniad cyffredinol i'r diwydiant ynghyd â chyfleoedd i arbenigo mewn meysydd fel cyfieithu deddfwriaethol, technoleg cyfieithu, a chyfieithu llenyddol a chreadigol. Darperir credydau cyfieithu ar y pryd y cynllun gan Brifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant ac mae'r cydweithio hwylus hwn, nid yn unig yn gaffaeliad i'r ddau sefydliad, ond hefyd yn batrwm o ddarpariaeth gydweithredol lwyddiannus.

Yn wir, drwy'r cynllun cenedlaethol hwn, efallai, y gwelir amlycaf gynneddf gydweithredol gref y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, oherwydd fe'i cynlluniwyd drwy ymgynghoriad cenedlaethol, a'i sefydlu drwy'r Cynllun Staffio Academaidd y tendrwyd amdano drwy broses gystadleuol agored. Enillwyd y tendr gan dîm Prifysgol Aberystwyth a oedd yn cynnwys adrannau academaidd, sef Adran y Gymraeg ac Astudiaethau Celtaidd a'r Adran Theatr, Ffilm, a Theledu (TFTS); adain greadigol TFTS, sef Llenyddiaeth ar Draws Ffiniau (sydd bellach yn rhan o Ganolfan Uwchefrydiau Cymreig a Cheltaidd Prifysgol Cymru); ynghyd ag un o adrannau proffesiynol y brifysgol, sef Gwasanaethau'r Gymraeg. Yn 2015, penodwyd Cydlynydd a Darlithydd Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol, Mrs Mandi Morse, ynghyd â Swyddog Prosiect, Mrs Gwenan Creunant ac yna Mrs Sharon Owen, i ddatblygu'r cynllun mewn cydweithrediad â Chonsortiwm Cenedlaethol sy'n cynnwys Gwasanaeth Cyfieithu Llywodraeth Cymru, Cymdeithas Cyfieithwyr Cymru, Swyddfa Comisiynydd y Gymraeg, unedau cyfieithu cynghorau sir Cymru, ynghyd â chwmnïau preifat a chynrychiolwyr llawrydd y sector. Mae aelodaeth y Consortiwm, a hwylusir gan y Coleg, yn sicrhau bod Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn llwyddo i bontio byd addysg a'r diwydiant cyfieithu. Cefnogir y cynllun bellach gan grant pynciol a braf yw gweld y cydweithio â Phrifysgol Cymru Y Drindod Dewi Sant yn mynd o nerth i nerth. Gyda chefnogaeth y Coleg, ac mewn cydweithrediad â phartneriaid, trefnir cynadleddau Astudiaethau Cyfieithu a Chymraeg Proffesiynol rheolaidd, ac y mae'r rheiny yn eu tro wedi esgor ar adnoddau gwerthfawr i fyfyrwyr a chyflogwyr fel ei gilydd: E-lyfr Cyfieithu Ysgrifenedig ac e-lyfr Cyfieithu Ar Y Pryd (o dan olygyddiaeth Mandi Morse, Lowri Lloyd a Lynwen Davies), ynghyd ag Y Gymraeg a Gweithle'r Gymru Gyfoes (Gwasg Prifysgol Cymru, 2022) dan olygyddiaeth Rhianedd Jewell a Rhiannon Heledd Williams.



Yn hyn o beth, gwelir y berthynas gilyddol rhwng dysgu ac ymchwil a feithrinir gan y Coleg yn gyffredinol, a gellir dweud mai prosiectau sy'n pontio dysgu ac ymchwil yw prosiectau cydweithredol mwyaf blaengar y Panel Iaith a Llên. Yn sgil cyfres o gyfnodau clo pandemig byd-eang CV-19, edrychir yn ôl yn hiraethus ar y gweithdai cymdeithasol a chynhyrchiol a gynhaliwyd o dan arweiniad Robert Rhys (Prifysgol Abertawe) ac a esgorodd ar yr adnodd electronig Esboniadur Theori a Beirniadaeth Lenyddol sydd bellach ar gael drwy fynediad agored ar Y Porth. Profiad rhithiol, ond nid llai ysgogol, oedd y profiad o gydweithio â'n chwaer adrannau Cymraeg ar lawlyfr sy'n cyflwyno myfyrwyr TGAU a Lefel A i gyfoeth, ehangder a pherthnasedd y Gymraeg fel pwnc. Bydd Beth yw'r Gymraeg?, dan olygyddiaeth Llion Pryderi Roberts ac Angharad Naylor (Prifysgol Caerdydd), ar gael cyn hir mewn copi caled ac fel e-lyfr.

I gloi, yn ogystal â diolch i sefydliad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol am bob cefnogaeth dros y degawd, rhaid diolch hefyd i unigolion penodol, sef Swyddogion y Panel Iaith a Llên: Rhian Jones, Mared Jones, Catrin Heledd, a Ffion Eluned Owen. Diolch i'w hymroddiad a'u hegni, gweinyddwyd y Panel a'i brosiectau yn effeithiol iawn dros y blynyddoedd, a meithrinwyd ein perthynas ag ysgolion a rhanddeiliaid eraill yn ddiflino. O sesiynau wyneb yn wyneb 'Y Gymraeg ar Daith' (2017–2019) i sesiynau adolygu rhithiol Ar-Lên (2021-) rydym fel Panel ac fel disgyblaeth wedi ymateb yn greadigol ac yn unedig i'r heriau'n ein hwynebu, ac edrychwn ymlaen at ddegawd arall o gydweithio llawen a chynhyrchiol.



Lansio'r Cynllun Astudiaethau Cyfieithu Proffesiynol yn Eisteddfod Genedlaethol 2016 gydag Elin Jones AS

# 10 Mlynedd o gyfraith Gymraeg



## Dr Catrin Fflûr Huws

**Mae'r ddeg mlynedd ddiwethaf wedi bod yn hanfodol bwysig o ran y gyfraith drwy gyfrwng y Gymraeg. Wedi'r refferendwm yn 2011, enillodd Senedd Cymru bwerau i wneud deddfwriaeth sylfaenol, a chyda'r dyletswydd i greu'r ddeddfwriaeth honno yn ddwyieithog. Crëwyd swyddogaeth y Comisiynydd Iaith. Daeth Tribiwnlys y Gymraeg i fodolaeth yn 2015, yn dilyn Mesur yr Iaith Gymraeg (Cymru) 2011. Yn 2014, cynhaliwyd yr achos Cymraeg cyntaf erioed yn yr Uchel Lys, a bu'r cwestiwn o sut i ddehongli deddfwriaeth ddwyieithog yn destun sylw yn y Llys Apêl yn 2021. Y degawd diwethaf yw'r degawd pan ddaeth y Gymraeg i aeddfedrwydd fel priod iaith y gyfraith gyfoes.**

Ac addas felly ydyw i ddathlu pen-blwydd Prifysgol Aberystwyth yn 150 oed, a 120 mlynedd ers sefydlu Adran y Gyfraith a Throseddeg - Adran Gyfreithiol gyntaf Cymru, drwy nodi llwyddiannau'r Adran, a chefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i gyrraedd y llwyddiannau hynny, i ddatblygu'r ddarpariaeth Gymraeg yn Adran y Gyfraith.

O egin bychan y tyfodd y ddarpariaeth, gydag ond un aelod o staff cyfrwng Cymraeg ar gychwyn yr ymgais i ddatblygu addysg Gymraeg. Bellach mae wyth aelod staff cyfrwng Cymraeg, sef traean o staff yr adran.

Rydym yn hynod falch o gynnwys yr Athro Carwyn Jones, cyn Prif Weinidog Cymru (a Chwnsler Cyffredinol Cymru cyn hynny), yr Athro a'r prifardd Emyr Lewis, cyfreithiwr blaenllaw, yn ogystal ag aelod o'r Pwyllgor Arbenigol ar y Siarter Ewropeaidd ar Ieithoedd Lleiafrifol a Rhanbarthol, a'r Pwyllgor Arbenigol ar Ddyfodol Cyfansoddiadol Cymru. Rhaid cydnabod hefyd aelodaeth werthfawr Dr Angharad James o'r tîm addysgol o fewn yr adran - aelod staff a dderbyniodd ei haddysg drwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth, cyn dychwelyd i gyflawni ei doethuriaeth ac i ddod yn aelod o staff yr adran, sydd wedi bod yn hynod flaengar o ran datblygu ac ehangu'r ddarpariaeth Gymraeg o fewn yr Adran. Mae Dr Lowri Cunnington Wynn wedi bod yn gyfrifol am ddatblygu'r ddarpariaeth Troseddeg yn yr Adran ac enillodd hi Wobr Cyfraniad Eithriadol i Addysg Cyfrwng Cymraeg y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn 2021.



Dr Lowri Cunnington Wynn, darlithydd Troseddeg, ac enillydd Gwobr Gwerddon 2019 am yr erthygl '"Beth yw'r ots gennyf i am Gymru?": Astudiaeth o allfudo a dyheadau pobl ifanc o'r bröydd Cymraeg'

Bellach cynigiwn dros ddwy ran o dair o'n cyrsiau gradd yn y Gyfraith yn y Gymraeg, a chydag arbenigedd ymchwil sylweddol hefyd ar faterion cyfreithiol Cymreig gan gynnwys hawliau ieithyddol, polisïau tai datganoledig, rôl comisiynwyr yng nghyfraith Cymru, hawliau pobol ifainc a phobl hŷn yng Nghymru. Roedd parodrwydd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu cyfleoedd staffio a darparu adnoddau yn hanfodol i'r llwyddiannau hyn.

Ariannodd y Coleg bedair ysgoloriaeth cyfrwng Cymraeg – myfyrwyr a oedd wedi derbyn addysg israddedig yn y Gymraeg, ac wedyn wedi dilyn cyrsiau PhD yn Gymraeg, cyn mynd ati i gyfrannu at y ddarpariaeth Gymraeg. Enillodd Dr Bethan Davies ei doethuriaeth ar Addysg Gyfreithiol cyfrwng Cymraeg, ac aeth ati'n ddiwyd i annog myfyrwyr i astudio yn Gymraeg. Daeth Dr Ffion Llewelyn yn ddarlithydd yn y gyfraith, ac fe ddatblygodd y modiwl Trosedd yn y Gymru Gyfoes, a oedd yn seiliedig ar ei gwaith ymchwil ar droseddau cyllyll. Bellach mae Demi John yn astudio ar gyfer doethuriaeth ar heddlua yng Nghymru, ac mae ei gwaith yn pontio prif ffrydiau disgyblaethol yr Adran, sef y Gyfraith a Throseddeg.

Rydym yn ymfalchïo yn llwyddiannau ein myfyrwyr a astudiodd drwy gyfrwng y Gymraeg, rhai wedi mynd i mewn i'r proffesiynau cyfreithiol, ac eraill wedi ehangu eu gorwelion ymhellach gan fynd i feysydd newyddiaduraeth, llywodraethiant, addysg, llywodraeth leol, a Bethan a Ffion bellach yn gweithio fel cyfreithwyr i Lywodraeth Cymru.



Enillwyr cystadleuaeth ymryson y Coleg Cymraeg yn Eisteddfod Genedlaethol 2013: Manon Chirgwin a Martin Jones

Rydym hefyd yn hynod falch o'r ystod eang o fyfyrwyr sydd wedi astudio yn Gymraeg – nid yn unig siaradwyr Cymraeg o'r crud, ond unigolion sydd wedi dysgu Cymraeg, a rhai ohonynt wedi dysgu Cymraeg fel myfyrwyr yn Aberystwyth – sawl un o Loegr, ond hefyd myfyrwyr o dramor.

Mae cefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddatblygu adnoddau wedi bod yn hynod bwysig. Yn sgil eu cefnogaeth rydym wedi datblygu adnoddau dosbarth, megis deunyddiau dysgu digidol (dan arweiniad Dr Angharad James a Dr Emma Roberts), gwerslyfrau (dan arweiniad Dr Catrin Fflûr Huws) a phrosiect rhyng-golegol ar eiriolaeth gyfreithiol, a chystadleuaeth ymryson yn yr Eisteddfod Genedlaethol – gan brofi nad beirdd yn unig sydd yn ymgymryd ag ymryson!

Mae cefnogaeth y Coleg Cymraeg hefyd wedi galluogi Adran y Gyfraith a Throseddeg i ymgysylltu a darpar gyfreithwyr y dyfodol. Rydym wedi cynnal sawl gweithdy llwyddiannus ar gyfer myfyrwyr blwyddyn 12 ac 13 ac iau ar faterion sydd yn cynnwys enllib, ewthanasia, hunan-amddiffyn, y ddyletswydd i achub, a thor-contract.

Ac felly, er mor enfawr yr ymddengys y dasg o unioni 500 mlynedd o eithrio'r Gymraeg o faes y gyfraith, gall Adran y Gyfraith a Throseddeg Prifysgol Aberystwyth a'r Coleg Cymraeg ymfalchïo yn eu llwyddiannau. Rydym wedi hyfforddi cenhedlaeth o gyfreithwyr y dyfodol yn y Gymraeg. Rydym wedi eu hannog i feithrin yr hyder a'r balchder i sylweddoli bod arddel y Gymraeg ym maes eu gwaith yn fantais sylweddol, ac yn wasanaeth pwysig i'w gynnig. Rydym wedi sylwebu ar ddatblygiadau cyfreithiol sydd yn berthnasol i Gymru, ac rydym wedi dangos bod modd trafod materion cyfreithiol o berthnasedd byd eang drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae mwy i'w wneud, ond wrth edrych yn ein holau, fe welwn hyn: rydym wedi cyrraedd ymhell.

# Cyfrifiadureg



## Dr Tamsin Davies

**Er nad yw'n cael ei ystyried yn bwnc 'traddodiadol' i'w astudio drwy'r Gymraeg, mae'r Adran Cyfrifiadureg wedi cynnig rhywfaint o ddarpariaeth Gymraeg ers canol y 2000au.**

Fodd bynnag, ers penodi Dr Wayne Aubrey yn ddarlithydd cyfrwng Cymraeg mewn Peirianneg Meddalwedd dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg yn 2013, mae darpariaeth Gymraeg yn yr Adran wedi datblygu'n helaeth. Erbyn hyn, cynigir 40 credyd drwy'r Gymraeg ymhob blwyddyn astudio ar lefel israddedig, yn bennaf drwy fodiwlau a addysgir yn rhannol yn Gymraeg. Mae'r Adran wedi derbyn Grant Pynciol gan y Coleg Cymraeg i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg er 2018.

Er bod y niferoedd sy'n astudio drwy'r Gymraeg ar lefel israddedig yn fach o hyd, mae pwysigrwydd y Gymraeg i'w weld yn y niferoedd sydd wedi ymgymryd â hyfforddiant proffesiynol yn yr iaith. Rhwng 2019 a 2023, arweiniodd Dr Helen Miles brosiect £2.4m Cynhyrchu Cyfryngau Uwch i ddatblygu rhaglen hyfforddiant uwchraddedig dysgu o bell ar lefel meistr i weithwyr proffesiynol yn y diwydiannau creadigol yn ne, gorllewin a gogledd-orllewin Cymru. Ar y cyd â'r Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, roedd y cynllun hwn yn cynnig ystod o fodiwlau cyfrwng Cymraeg a dwyieithog. Astudiodd hyd at 32% o'r myfyrwyr ar y cwrs hwn yn y Gymraeg neu'n ddwyieithog.




Dr Helen Miles, ei chydweithwyr a chrwydryn ExoMars Barnes ar gyfer archwilio'r blaned Mawrth: mae'n bosib astudio Roboteg a Gwyddor y Gofod yn rhannol yn Gymraeg ar y cyd rhwng yr Adran Ffiseg a'r Adran Cyfrifiadureg.



# Daearyddiaeth, Aberystwyth a'r Gymraeg

## Dr Cerys Jones

**Mae cysylltiad Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, Prifysgol Aberystwyth, â'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn ymestyn yn ôl ddegawd a mwy; i ddyddiau'r Cyngor Datblygu Addysg Uwch Cyfrwng Cymraeg a'i gynllun ysgoloriaethau ymchwil (a enwyd yn 'Mantais'). Fe fûm yn un o ddeiliaid yr ysgoloriaeth Mantais, gan ddilyn ôl troed Dr Hywel Griffiths a Dr Rhys Dafydd Jones. O dan nawdd yr ysgoloriaeth, cwblhaom ymchwil PhD ar geomorffoleg afonol (Hywel), daearyddiaethau crefydd (Rhys) a thywydd eithafol hanesyddol (Cerys). Trwy gydol ein doethuriaethau a'r cyfnod dilynol fel Cymrodyr Dysgu'r CCC, cawsom fwrw ein prentisiaeth fel darlithwyr cyn derbyn swyddi parhaol gan y Brifysgol. Trwy gynllunio gofalus y Cynllun Staffio a Chynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y CCC, rydym bellach yn dîm o bump sy'n darlithio trwy gyfrwng y Gymraeg yn yr Adran, ac wedi meithrin dau o ymchwilwyr eraill o dan nawdd y CCC, sef Dr Osian Elias a Dr Sioned Llywelyn.**

Wrth i nifer y darlithwyr gynyddu, cynyddu hefyd y mae'r ddarpariaeth gyda chymorth Grant Pynciol y CCC. Rydym bellach yn medru cynnig cyfanswm o 430 credyd trwy gyfrwng y Gymraeg i'n myfyrwyr ar gynlluniau gradd ar draws yr Adran gyfan: Cymdeithaseg, Daearyddiaeth Ddynol, Daearyddiaeth, Daearyddiaeth Ffisegol, Gwyddor yr Amgylchedd, Gwyddor Daear Amgylcheddol, a'r flwyddyn mewn diwydiant. Rydym yn flaenllaw wrth geisio chwilio am gyfleoedd i gynnig cymaint o opsiynau â phosib i'n myfyrwyr.

Datblygiad diweddar yw cynnig cynllun Daearyddiaeth pedair blynedd gyda blwyddyn mewn diwydiant (F806) neu flwyddyn yn astudio dramor (F805). Mae Tomos yn fyfyriwr cyfrwng Cymraeg sydd newydd ddychwelyd o'i flwyddyn yn astudio yn un o'n prifysgolion partner yng Nghanada (darllenwch bwt o'i brofiad isod).


"Ar ôl edrych ar gymaint o opsiynau o gwmpas y byd, penderfynais fynd i Fictoria ar Ynys Vancouver yng Nghanada ar gyfer blwyddyn yn astudio mewn prifysgol dramor. Fe astudiais lwyth o gyrsiau oedd gen i ddiddordeb ynddynt ac a oedd â chysylltiad â'm mhwnc, fel Daearyddiaethau'r Caribî, Geowleidyddiaeth a Daearyddiaeth Bwyd. Ond, hefyd, ces y cyfle i edrych ychydig tu allan i fy mhwnc i mi allu cael sgiliau a gwybodaeth na fyswn i wedi'u cael yn fy ngradd fel arfer, fel cwrs Cyfiawnder Cymdeithasol.

Tra yn Fictoria ei hun cefais lwyth o brofiadau: gwylio morfilod ar y cychod twristiaeth; y cyfle i fynd i Ottawa a Toronto ar yr awyren, wedyn siwrne pedwar diwrnod yn ôl i Vancouver a Fictoria ar reilffordd VIA Rail; cael y cyfle i fyw a theimlo'r profiad o fod yn breswylydd yng Nghanada; cyfarfod â phobl o bob math o ddiwylliannau gwahanol; a, dysgu am hanes pobl frodorol Canada, eu camdriniaeth a'r ymgais ddiweddar i gymodi."

**– Tomos Barlow (BSc Daearyddiaeth gyda blwyddyn integredig yn astudio dramor)**

Cefnoga'r CCC ein myfyrwyr yn ogystal. Dros y degawd diwethaf, mae 117 o fyfyrwyr yr adran wedi cael cefnogaeth ariannol gan y CCC ar ffurf ysgoloriaethau cymhelliant a phrif ysgoloriaethau. Ynghyd â'r gefnogaeth ariannol gan y CCC a Phrifysgol Aberystwyth, mae'n myfyrwyr cyfrwng Cymraeg yn elwa ar grwpiau llai a darlithoedd rhyngweithiol, a phrofiadau o fodiwlau cydweithredol. Rydym yn cydweithio'n agos â Phrifysgolion Abertawe a Bangor er mwyn cynnig cyfleoedd i rwydweithio â myfyrwyr cyfrwng Cymraeg o feysydd amgylcheddol amrywiol, ac i brofi arbenigedd mwy o ddarlithwyr. Er enghraifft, mae DA22510 Geomorffoleg Afonol, o dan ofal Dr Hywel Griffiths, wedi bod o fudd i fyfyrwyr Aberystwyth, Bangor ac Abertawe ers dros ddegawd. Mae DA11220 Methodoleg Maes Amgylcheddol yn cyfuno arbenigedd darlithwyr o'r tri sefydliad wrth i bawb ddod ynghyd am benwythnos o waith maes yn Aberystwyth. Wrth gynllunio i'r dyfodol, ein bwriad yw cyflwyno modiwl opsiynol yn y drydedd flwyddyn i Wlad yr Iâ, o dan ofalaeth Phrifysgol Abertawe.

Fel darlithwyr, rydym hefyd yn ymwybodol o'r angen i gefnogi'n myfyrwyr wrth gynhyrchu adnoddau cyfrwng Cymraeg, nifer ohonynt o dan nawdd y CCC. Dros y blynyddoedd, mae'r rhain yn cynnwys yr Esboniadur Daearyddiaeth, adnoddau ystadegol (Dr Aled Rowlands), gweithdy newid hinsawdd (Dr Hywel Griffiths a Dr Rhys Dafydd Jones), deunyddiau dysgu digidol gwyddorau cymdeithas (Yr Athro Rhys A Jones ac eraill), a gwerslyfr Daearyddiaeth – Astudio a dehongli'r byd a'i bobl (Dr Marie Busfield, Dr Hywel Griffiths, Dr Cerys Jones, Yr Athro Rhys A Jones, a Dr Rhys Dafydd Jones) sef enillydd Gwobr Adnodd Cyfrwng Cymraeg y CCC yn 2020.




Daearyddiaeth: Astudio a dehongli'r byd a'i bobl gan ddarlithwyr yr Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear, a gyhoeddwyd yn 2020

Yn ein harolwg adran diweddar, fe'n disgrifiwyd yn "flagship" ar gyfer darpariaeth Daearyddiaeth cyfrwng Cymraeg yng Nghymru, ac mae'n destun balchder bod ein myfyrwyr yn profi cryn lwyddiant yn ystod eu hastudiaethau. Eleni, fe fu Einir Glyn Jones, sef un o'n myfyrwyr cyfrwng Cymraeg a oedd yn gyn-llysgennad y CCC ac un o ddeiliaid Prif Ysgoloriaeth y CCC, yn llwyddiannus dros ben wrth dderbyn y marc uchaf am draethawd estynedig a'r marc gradd uchaf o holl raddedigion yr Adran yn 2022.

Yn ogystal ag addysgu, rydym yn ymchwilwyr ac wedi ennill amrywiaeth o brofiadau wrth fynychu a chyflwyno mewn cynadleddau benbaladr, gan gynnwys cynadleddau ymchwil y CCC yng Ngregynog ac Aberystwyth. Cyhoeddwyd erthyglau mewn ystod eang o gyfnodolion academaidd cyfrwng Saesneg a Chymraeg, gan gynnwys Gwerddon (yr e-gyfnodolyn academaidd cyfrwng Cymraeg a gyllidir gan y CCC, lle mae Dr Hywel Griffiths yn is-olygydd) a rhifyn dathlu 50 mlynedd Y Gwyddonydd.

Fel daearyddwyr, rydym wedi cael y cyfle i deithio ar waith maes ar gyfer ymchwil a dysgu: yng Nghymru, Ewrop a thu hwnt. Ond, er ein bod bob tro'n edrych tuag at y gorwel – wrth gynllunio'n dysgu neu'n hymchwil diweddaraf – mae yna bwyslais diweddar wedi bod ar gynnal ymchwil i'r ardal leol ac i rannu'n gwybodaeth ar ffurf adnoddau allestyn. Er enghraifft, fe gefnogodd y CCC brosiectau megis: cynnwys myfyrwyr coleg ac ysgol yn y broses o gasglu a thrin data gwyddonol yn Excel yn ymwneud â cheudyllau; creu teithiau maes rhithiol ar gyfer Eisteddfod Genedlaethol Tregaron 2022; ac, fel rhan o'i doethuriaeth o dan nawdd y Coleg, fe ddatblygodd Dr Sioned Llywelyn adnoddau ymwelwyr ar gyfer Cwm Elan a Phontarfynach, a llyfr sydd ar fin dod o'r wasg – Yr Afon a'r Graig.

Mae Daearyddiaeth wedi'i ddysgu yn Aberystwyth ers cant a phump o flynyddoedd (a Gwyddorau Daear cyn hynny), a'n neges flynyddol i ddarpar fyfyrwyr yw taw "Aberystwyth yw'r lle perffaith i astudio Daearyddiaeth a'r Gwyddorau Daear ac Amgylcheddol". Ond, mewn gwirionedd, mae'n lle perffaith i ni'r addysgwyr hefyd gan fod gennym ddigonedd o adnoddau naturiol ar garreg ein drws. Rydym hefyd yn ffodus o'r seiliau cadarn sydd i'r Gymraeg o fewn yr Adran, sydd â thraddodiad hir o addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg, a'r buddsoddiad diweddar gan y Brifysgol a'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol.



Dr Hywel Griffiths yn traddodi Darlith EG Bowen yn Eisteddfod Genedlaethol 2016

# Gwleidyddiaeth Ryngwladol



## Dr Catrin Wyn Edwards

**Mae dysgu drwy gyfrwng y Gymraeg wedi bod yn rhan o bortffolio Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol Prifysgol Aberystwyth ers canol yr 1980au. Cafwyd y datblygiad mwyaf arwyddocaol ar ddechrau'r 1990au pan benodwyd tiwtor cyfrwng Cymraeg, swydd a ddatblygodd wedyn yn ddarlithyddiaeth, yn yr Adran. Ers hynny gwelwyd cynnydd graddol yn y staff dysgu Cymraeg, ac o ganlyniad, darpariaeth cyfrwng Cymraeg. Yn wir, yr Adran oedd un o'r rhai cyntaf y tu allan i'r dyniaethau i gymryd camau ystyrlon i ehangu ei darpariaeth o gyrsiau cyfrwng Cymraeg. Bellach, yr Adran yw'r prif ddarparwr addysgu cyfrwng Cymraeg ym meysydd gwleidyddiaeth a chysylltiadau rhyngwladol.**

Yn dilyn sefydlu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol (CCC) gwelwyd datblygiadau sylweddol o ran cynllunio darpariaeth cyfrwng Cymraeg ar draws addysg uwch yng Nghymru. O ran ein hadran ni, caniatawyd i ni roi darpariaeth Gymraeg ar sail fwy cadarn ac mae wedi cyfannu at gynnal a sefydlogi ein darpariaeth helaeth. Cafwyd buddsoddiad trwy'r Coleg Cymraeg mewn dwy swydd ddarlithio Gwleidyddiaeth newydd ym Mhrifysgol Aberystwyth. O ganlyniad i'r buddsoddiad yma datblygwyd nifer o fodiwlau newydd, gan gynnwys rhai ar wleidyddiaeth y Dwyrain Canol yn y Gymraeg am y tro cyntaf.

Mae'r traddodiad a hanes hir o addysgu ac astudio Gwleidyddiaeth a Gwleidyddiaeth Ryngwladol trwy gyfrwng y Gymraeg yn golygu fod pum aelod staff bellach yn cyfrannu at ddysgu cyfrwng Cymraeg yn yr Adran.

Mae ganddynt ystod o ddiddordebau ymchwil gan gynnwys dinasyddiaeth, gwladychiad yn America Ladin, mudo, gwleidyddiaeth diriogaethol a gwleidyddiaeth wedi datganoli yn y DU, polisi a chynllunio iaith a gwleidyddiaeth gymharol. Mae dull addysgu'r adran wedi'i arwain gan ymchwil sy'n cyfoethogi'r cwricwlwm ac yn gwella profiad myfyrwyr. Ymhellach, mae'r ddarpariaeth gydweithredol genedlaethol a gynigir drwy'r CCC megis modiwlau ar y 'Meddwl Cymreig mewn Syniadaeth Ryngwladol' a 'Chyfiawnder Byd-eang' yn cyfoethogi ein rhaglen ddysgu ac yn atgyfnerthu darpariaeth cyfrwng Cymraeg yr Adran, ac yn hynny o beth, yn gwella profiad dysgu ac addysgu ein myfyrwyr. Rydym yn cynnig dros 80 credyd drwy gyfrwng y Gymraeg ymhob blwyddyn o addysgu.

Dilyna'r Adran ddull addysgu trwy gyfrwng y Gymraeg sy'n gysylltiedig â'r gweithle fel rhan o'r cwricwlwm. Mae rhai o'r mentrau hyn yn ymwneud yn benodol yn gysylltiedig â gwleidyddiaeth Cymru ac eraill o bersbectif gwleidyddiaeth ryngwladol. Un enghraifft yw hyn yw ein modiwl poblogaidd, 'Y Tu Ôl i'r Penawdau', a gynigir i fyfyrwyr y flwyddyn gyntaf. Nid oes cwricwlwm craidd i'r modiwl na chwaith destunau academaidd hanfodol i'w darllen, eu dadansoddi a'u trafod. Yn hytrach, yr hyn sy'n penderfynu cynnwys y modiwl yn bennaf ydi straeon newyddion cyfoes. Mae'r modiwl yn seiliedig ar y ffaith fod gwleidyddiaeth a gwleidyddiaeth ryngwladol yn digwydd drwy'r amser, o'n cylch ymhobman, a bod y gallu i 'ddarllen' y modd mae'r cyfryngau yn adrodd y newyddion am ddigwyddiadau rhyngwladol mewn modd deallusol yn sgil hanfodol i ni os ydyn ni am fod yn ddinasyddion gwybodus.

Yn wir, mae datganoli gwleidyddol i Gymru wedi arwain at gynnydd aruthrol yn y gydnabyddiaeth o'r angen gan gyflogwyr yn y sector cyhoeddus, y sector preifat a'r trydydd sector am raddedigion dwyieithog sy'n meddu ar ddealltwriaeth dda o wleidyddiaeth Cymru heddiw, ynghyd â gallu i osod hynny mewn cyd-destun rhyngwladol cymharol. Bu'n destun balchder i'r Adran bod cymaint o raddedigion dros y degawd diwethaf a mwy wedi mynd ymlaen i wneud cyfraniad pwysig at ddatblygiad sawl agwedd ar fywyd cyhoeddus Cymru, er enghraifft mewn meysydd megis newyddiaduraeth, cyfathrebu ac ymgyrchu gwleidyddol, gweinyddiaeth gyhoeddus a llywodraethiant. Mae'r Adran wedi cynnal gweithgareddau i gefnogi ei myfyrwyr wrth astudio drwy'r Gymraeg ac wedi cydweithio ag adrannau eraill yn y Brifysgol i gynnig sgiliau astudio. Ymhellach, cynhelir ystod o weithgareddau allgyrsiol i gyfoethogi profiad addysgu myfyrwyr. Diolch i gyllid gan y CCC, cynhaliwyd gweithgareddau cydweithredol gan gynnwys gemau argyfwng i ddisgyblion chweched dosbarth ac i fyfyrwyr prifysgolion Cymru.

Yn 2017, derbyniodd Dr Elin Royles a Dr Huw Lewis grant o Gronfa Prosiectau'r Coleg i gynhyrchu dau e-lawlyfr astudio a oedd yn canolbwyntio ar gysyniadau ac egwyddorion gwleidyddol craidd i gefnogi modiwlau a addysgir drwy gyfrwng y Gymraeg yn y brifysgol, ynghyd ag athrawon sy'n addysgu'r pwnc ar lefel Safon Uwch. Roedd y prosiect hwn yn ymateb i'r prinder adnoddau astudio Cymraeg ym maes gwleidyddiaeth. Cyhoeddwyd yr e-lawlyfrau yn 2019 a dyfarnwyd iddynt y wobr am 'Adnodd cyfrwng Cymraeg gorau' yng ngwobrau Darlithwyr Cysylltiol y Coleg y flwyddyn honno.



Dr Huw Lewis, darlithydd mewn Gwleidyddiaeth Ryngwladol


Mynnu rhagor o hawliau i groesawu ffoaduriaid

Erthygl Dr Catrin Wyn Edwards yn Golwg, yn seiliedig ar ei hymchwil dan nawdd Grant Bach y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, 2017

Yn ogystal â chyfoethogi darpariaeth addysgu'r Adran, mae'r CCC wedi hwyluso ymchwil yn yr Adran. Cefnogwyd tair doethuriaeth drwy gynllun Ysgoloriaethau Ymchwil y CCC dros y degawd diwethaf. Ymhellach, yn 2017, derbyniodd Dr Catrin Edwards gyllid o Gronfa Grantiau Bach y Coleg i gefnogi gwaith ymchwil rhyngwladol ar fewnfudo a pholisi iaith mewn addysg mewn cymunedau iaith lleiafrifol. Penllanw'r gwaith hwn oedd cyhoeddi erthyglau yn Gwerddon, Golwg ac O'r Pedwar Gwynt a chynnal gweithdy rhyngwladol, 'Creu siaradwyr Cymraeg a chymhathu newydd-ddyfodiaid drwy'r gyfundrefn addysg' ym Mhrifysgol Aberystwyth gyda chyflwyniadau gan weision sifil o Wlad y Basg a Chatalwnia.

Edrychwn ymlaen at gydweithio â'r CCC dros y blynyddoedd nesaf, a hynny mewn cyfnod o newid gwleidyddol arwyddocaol ar sawl lefel. Yng Nghymru, mae'r trafod ynglŷn â natur y setliad datganoli a'i oblygiadau ar gyfer polisi, gweinyddiaeth gyhoeddus ac, yn gynyddol, lefelau trethiant, yn debygol o barhau dros y blynyddoedd nesaf. Ar yr un pryd, mae'n debygol y bydd y trafodaethau hyn yn digwydd fwyfwy yng nghyd-destun newidiadau ehangach i natur gwleidyddiaeth y Deyrnas Gyfunol, wrth i'r broses o ymadael â'r Undeb Ewropeaidd godi cwestiynau dwys ynglŷn â natur cyfundrefn economaidd y wladwriaeth, ynghyd â seiliau ei chyfansoddiad tiriogaethol. Ymhellach, ar y llwyfan rhyngwladol, bydd galw am ymateb i ystod o heriau gwleidyddol byd-eang – rhai ohonynt yn gyfarwydd ac eraill yn newydd – er enghraifft, ymateb mewn modd cydlynol i newid hinsawdd, ymdrin ag ymlediad arfau niwclear neu ymateb mewn modd teg i symudiadau poblogaeth rhyngwladol.

# Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth



## Sharon King

**Wedi hir ymaros a dyheu, ar yr 20fed o Fedi 2021 agorodd Ysgol Gwyddor Filfeddygol Aberystwyth ei drysau i'r garfan gyntaf o fyfyrwyr milfeddygol i gael eu haddysgu yng Nghymru. Er bod amaethyddiaeth a gwyddor anifeiliaid a biofilfeddygaeth wedi cael eu dysgu ym Mhrifysgol Aberystwyth am flynyddoedd lawer, dyma'r tro cyntaf i filfeddygon y dyfodol gael eu haddysg ym Mhrifysgol Aberystwyth, Ysgol Gwyddor Filfeddygol gyntaf Cymru.**

Mae'r cwrs milfeddygaeth yn bum mlynedd o hyd, ac am y tro, y ddwy flynedd gyntaf cyn-glinigol yn unig sy'n cael eu dysgu yma yn Aberystwyth, cyn i'r myfyrwyr drawsnewid i ymuno a thrydedd flwyddyn y Coleg Milfeddygol Brenhinol (RVC) yn Llundain. Y freuddwyd nawr, o fod wedi sefydlu rhannau cyn-glinigol cwrs milfeddygaeth yma yn Aberystwyth yw, ymhen amser, gallu sefydlu cwrs cyfan yma sy'n cwmpasu'r bum mlynedd gyfan, ond mae'n rhaid cychwyn yn rhywle!

Fel y gwyddom, mae amaethyddiaeth yn rhan annatod o fywyd a diwylliant Cymru, gyda'r sector amaethyddol yn profi sialensiau enbyd fel gweddill cymdeithas y dyddiau hyn, ynghyd â rhai heriau unigryw iawn hefyd. Mae newid hinsawdd ynghyd â'r dyhead i leihau cynhyrchiad methan a'r gyfran o gig sy'n cael ei fwyta yn peri gofid yn ogystal â sbarduno datblygiadau arloesol i geisio ymateb i'r heriau hyn. Mae prinder milfeddygon yn gyffredinol ar draws y Deyrnas Unedig yn peri pryder heb sôn am filfeddygon anifeiliaid fferm yn yr ardaloedd gwledig, a dyw Cymru'n ddim gwahanol. Mae denu a chadw milfeddygon yn broblem fawr, gyda nifer o filfeddygon yn gadael y proffesiwn o fewn y bum mlynedd gyntaf. Rhan o'r weledigaeth felly i'r Ysgol Wyddor Filfeddygol yw gallu denu unigolion o Gymru i ddod i Aberystwyth i gael eu haddysgu, yn yr iaith Gymraeg pe dymunant, gyda'r bwriad wedyn o aros yng Nghymru gan gyfrannu at a chyfoethogi'r diwydiant amaethyddol a milfeddygol leol.

Ar hyn o bryd mae rhannau o rai modiwlau milfeddygol yn cael eu cynnig drwy gyfrwng y Gymraeg gydag oddeutu 40 credyd yn cael eu cynnig ar draws y cwrs, ond eto gyda'r weledigaeth o gynyddu'r hyn sy'n cael ei gynnig. Cyflogir un aelod a staff yr ysgol filfeddygol, Dr Gwen Rees, yn rhannol dan nawdd y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, gydag aelod arall o'r staff, Mrs. Sharon King hefyd yn cyfrannu at y ddarpariaeth Gymraeg ar draws y cwrs. Rhan arall bwysig o gwrs milfeddygol Aberystwyth yn benodol yw fod rhaid i 50% o'r lleoliadau hwsmonaeth anifeiliaid a chlinigol angenrheidiol gael eu cwblhau yng Nghymru.

Yn ogystal â hyn mae anogaeth i'r holl fyfyrwyr gael rhywfaint o addysg iaith Gymraeg sylfaenol fel rhan o'u hastudiaethau proffesiynol fel y gallant gyfathrebu â ffermwyr a chleientiaid tra ar y lleoliadau hyn yng Nghymru. Mae cynllun mentora hefyd ar y gweill sydd â dau bwrpas; y cyntaf, i ddarparu cefnogaeth i fyfyrwyr gan filfeddygon profiadol allan yn y maes. Rhywun y gallant droi atynt am gyngor a chefnogaeth ac anogaeth, rhywun sydd wedi bod yn eu hesgidiau nhw. Yr ail, y weledigaeth yw y bydd cynllun o'r fath, drwy ddatblygu perthynas ddwyffordd rhwng y myfyriwr a'r practis, yn cyfrannu at ddatrys y broblem o ddenu a chadw milfeddygon mewn swyddi yn arbennig yng Nghymru.

O ran y cyfleusterau a'r hyn a ddysgir yn yr ysgol, mae'r Ganolfan Addysg Filfeddygol yn cynnig ardal astudio cymdeithasol ble mae ysgerbydau gwahanol anifeiliaid i'w gweld. Mae hon yn ardal ble gall myfyrwyr astudio mewn grwpiau a chymdeithasu yn anffurfiol. Mae ystafell sgiliau clinigol yno yn ogystal. Ystafell yw hon sy'n darparu'r cyfle i ymarfer sgiliau megis sut i ddal anifail ar gyfer tynnu gwaed er enghraifft, a sut mae gwneud hynny mewn ffordd ddiogel cyn gorfod gwneud hynny mewn sefyllfa go iawn.

Hefyd cânt y cyfle i ymarfer sgiliau labordy eto mewn amgylchedd goruchwyliol cyn gorfod eu gwneud yn annibynnol. Pwrpas yr ystafell hon yw datblygu sgiliau'r myfyrwyr yn ogystal â'u hyder fel eu bod wedi eu paratoi pan ânt allan i'r byd mawr. Yna mae'r labordy anatomi gennym. Labordy sydd yn cynnig technoleg "state of the art" ble mae'r myfyrwyr yn dysgu am ffurf a gweithrediad, anatomi a ffisioleg, yn ymarferol ac eto yn hwb i'w paratoi ar gyfer y blynyddoedd clinigol yn Llundain a'u gyrfa ddewisedig.

Mae'n ddyddiau cynnar iawn ar yr ysgol filfeddygol newydd yma yn Aberystwyth, gyda'r garfan gyntaf yn awr yn paratoi i fynd i mewn i'r ail flwyddyn o astudio ac fel staff rydym yn paratoi i groesawu blwyddyn gyntaf newydd a fydd felly'n dyblu rhifau'n myfyrwyr. Mae amser cyffrous iawn o'n blaenau!!




Sharon King, darlithydd mewn Milfeddygaeth, wrth ei gwaith

# Hanes a Hanes Cymru

## Dr Tamsin Davies

**Mae traddodiad hir o ddarparu drwy'r Gymraeg yn yr Adran Hanes a Hanes Cymru ac roedd yn bosib astudio gradd yn yr Adran yn gyfan gwbl drwy'r Gymraeg cyn dyfodiad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol.**

Gyda dyfodiad y Coleg, mae'r Adran wedi gallu ehangu'r modiwlau cyfrwng Cymraeg sydd ar gael, ac mae cydweithio gyda Dr Gethin Matthews ym Mhrifysgol Abertawe wedi ei galluogi i gynnig modiwlau ar y Rhyfel Byd Cyntaf, ymerodraethau Prydain a Ffrainc a hanes yr Unol Daleithiau. Penodwyd Dr Rhun Emlyn yn ddarlithydd cyfrwng Cymraeg dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg yn 2011, ac, ers 2019, mae'r Adran wedi derbyn Grant Pynciol i gefnogi'r ddarpariaeth Gymraeg. Cwblhaodd Rhun ei ddoethuriaeth o dan nawdd y Coleg ar fyfyrwyr Cymreig Canoloesol a'u gyrfaoedd ac mae'r Adran yn parhau i ennill ysgoloriaethau ymchwil Coleg Cymraeg, gyda Charles Roberts wrthi ar hyn o bryd ar brosiect o'r teitl: 'Bron bob tŷ wedi claddu rhywun annwyl!' Astudiaeth o Bandemig Y Ffliw yng Nghymru, 1918-20. Mae'r Adran wedi ennill sawl Grant Bach gan y Coleg Cymraeg i gynhyrchu ymchwil ac adnoddau, gyda Dr Arddun Arwyn yn cwblhau prosiect ar hanes yr Almaen wedi'r Ail Ryfel Byd, yr Athro Paul O'Leary yn ysgrifennu e-lyfr Ffrainc a Chymru 1830-1880: Dehongliadau Ffrengig o Genedl Ddiwladwriaeth a gyhoeddwyd yn 2015, a Rhun yn y broses o ddatblygu atlas hanesyddol Cymru'r oesoedd canol a fydd ar gael yn fuan.




Ffrainc a Chymru 1830-1880: Dehongliadau Ffrengig o genedl ddiwladwriaeth gan Paul O'Leary, a gyhoeddwyd yn 2015

# Dathlu'r 10: Cyfraniad y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg Mathemateg a Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth

**Dr Tudur Davies, yr Athro Andrew Evans, Dr Gwion Evans, Dr Matt Gunn, Alan Jones, yr Athro Huw Morgan a'r Athro Eleri Pryse**

**Rhagair:**
**Mae'n braf weithiau cael y cyfle i edrych yn ôl er mwyn gwerthfawrogi'r datblygiadau cyffrous a fu mewn addysg uwch cyfrwng Cymraeg Mathemateg a Ffiseg a rôl allweddol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol yn hyn. Bu'r degawd diwethaf yn gyfnod o dorri cwysi newydd gyda chydweithio agos rhwng adrannau yn y brifysgol a sefydliadau eraill. Agorodd ddrysau i rwydweithio eang gan gwmpasu amryw ddisgyblaethau a sefydliadau yng Nghymru a thu hwnt. Ond yn anad dim bu'n gyfnod pan osodwyd y ddarpariaeth Gymraeg ar sail mwy cadarn a rhoi anogaeth i fyfyrwyr ddatblygu eu sgiliau dwyieithog, fydd mi hyderwn yn ddefnyddiol iddynt ar lwybrau gyrfa.**

**Seiliau cynnar:**
Mae seiliau'r ddarpariaeth Gymraeg yn ymestyn yn ôl ymhell, ac yn rhan annatod o'r adrannau Mathemateg a Ffiseg. Rhaid cydnabod cyfraniadau nifer o ddarlithwyr a myfyrwyr ôl-raddedig a fu'n cynnal hyn dros ddegawdau cyn sefydlu'r Coleg Cymraeg. Yn y cyfnod cynnar yma darparwyd tiwtorialau Cymraeg, a gwerthfawrogwyd y cyfle gan fyfyrwyr i atgyfnerthu'r cyrsiau yn eu hiaith gyntaf.

Gyda dyfodiad addysgu modiwlaidd, cyflwynwyd modiwl blwyddyn gyntaf rhyng-adrannol, Pynciau Llosg mewn Gwyddoniaeth, yn cynnwys darlithoedd gwyddorau biolegol, ffiseg a daearyddiaeth a recordiwyd gyda delwedd a llais. Ond yn ganolog i'r datblygiad mewn Mathemateg a Ffiseg oedd dechrau ffurfioli'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg bynciol yn y blynyddoedd yn arwain at sefydlu'r Coleg Cymraeg. Roedd y cydweithio agos rhwng y ddwy ddisgyblaeth yn anhepgorol yn y datblygiadau, a'r cam cychwynnol yn canolbwyntio ar y modiwlau blwyddyn gyntaf cyffredin i'r cynlluniau gradd Mathemateg a'r cynlluniau gradd Ffiseg. Sefydlwyd y modiwlau Cymraeg penodol cyntaf ar gyfer Mathemateg a Ffiseg megis Algebra a Chalcwlws gyda'r darlithoedd yn Saesneg, y deunydd atgyfnerthu yn ddwyieithog, a thiwtorialau/gweithdai yn Gymraeg.

**Addysgu cyfrwng Cymraeg:**
Nod y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yw datblygu myfyrwyr i ymdrin â'u disgyblaeth yn ddwyieithog; yn neilltuol i'w hannog i fod yn gyfforddus i gyflwyno eu pwnc drwy gyfrwng y Gymraeg a'r Saesneg, gan hybu eu cyflogadwyedd yng Nghymru a thu hwnt. Mae'n gyfle i gyflwyno termau Cymraeg i'r myfyrwyr sydd wedi cael eu haddysg cyn prifysgol yn y Saesneg, ond mae hefyd yn gyfle i gyflwyno termau Saesneg i'r sawl sydd wedi cael eu haddysg flaenorol yn Gymraeg.

Y modiwlau mathemategol cyffredin i'r ddwy adran fu'r cyntaf i'w ffurfioli, ac roedd yn galonogol gweld brwdfrydedd ein myfyrwyr Cymraeg a rhai Cymraeg ail iaith yn ymgymryd â'r modiwlau yma, lle mathemateg yw'r brif iaith cyfathrebu. Yn gyffredin i'r ddwy adran hefyd mae datblygu sgiliau cyflogadwyedd, ac addysgir yr elfen Gymraeg yma hefyd ar y cyd. Un o uchafbwyntiau'r cyfnod cynnar oedd cwrs penwythnos Sgiliau'r Gweithle a gynhaliwyd yng nghanolfan Gregynog, a roddodd gyfle hefyd i staff a myfyrwyr ein hadrannau i sgwrsio yn gymdeithasol. Aethpwyd ati i gynyddu nifer y modiwlau Mathemateg a Ffiseg cyfrwng Cymraeg ymhob blwyddyn o'r cynlluniau gradd, a chael cyrsiau yn gydnaws â gofynion Ysgoloriaethau Cymhelliant y Coleg Cymraeg. Mae modd erbyn hyn i fyfyrwyr ddewis rhai modiwlau cyfrwng Cymraeg arbenigol ym mlynyddoedd olaf eu cwrs gradd sy'n adeiladu ar ddiddordebau ymchwil staff. Mae darpariaeth hefyd ar gael i fyfyrwyr blwyddyn sylfaen, i'w hannog i ystyried dysgu cyfrwng y Gymraeg.

**Atgyfnerthu'r addysgu cyfrwng Cymraeg:**

Atgyfnerthwyd yr addysgu cyfrwng Cymraeg drwy weithgareddau cymdeithasu a phrosiectau. Gyda nawdd grantiau bach datblygwyd deunydd ar gyfer Y Porth yn cynnwys: Pamffledi Ffeithiau a Fformiwlâu, Problemau a Datrysiadau yn y Gwyddorau Ffisegol, a Gweithdai Mathemateg a fu'n boblogaidd iawn yn y blynyddoedd diwethaf fel adnodd rhithiol i ddisgyblion chweched dosbarth. Cyllidwyd ysgoloriaethau i fyfyrwyr Mathemateg a Ffiseg yn nyddiau cynnar y ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, cyn i'r Coleg Cymraeg sefydlu ei ysgoloriaethau cymhelliant, a bu'r rhain yn fodd i annog astudio yn Gymraeg.

Cynhaliwyd gweithdai gydag athrawon Mathemateg a Ffiseg a fu'n fuddiol i sefydlu perthynas rhwng athrawon a darlithwyr. Rydym yn awr yn cynnig modiwlau pwrpasol cyfrwng Cymraeg mewn Mathemateg a Ffiseg sy'n rhoi cyfle i fyfyrwyr gael profiad gwaith mewn ysgol, profiad sy'n boblogaidd ac yn ddefnyddiol i fyfyrwyr.

**Staff**:

Datblygodd y ddarpariaeth Gymraeg gyda phenodiadau newydd darlithwyr cyfrwng Cymraeg drwy gynllun staffio'r Coleg Cymraeg; penodwyd Huw Morgan yn ddarlithydd Ffiseg a Tudur Davies yn ddarlithydd Mathemateg. Hwyluswyd yr addysgu gan aelodau o'r staff yn cynrychioli addysgu cyfrwng Cymraeg ar bwyllgorau'r brifysgol. Mae cefnogaeth y Coleg i'r staffio cyfrwng Cymraeg yn parhau, a gwelir cydweithio cyson rhwng y staff a'r Coleg Cymraeg. Dyfarnwyd ysgoloriaethau i fyfyrwyr ôl-raddedig yn y disgyblaethau, gan ehangu'r addysgu Cymraeg y tu hwnt i'r ddarpariaeth israddedig. Rhoddwyd cefnogaeth gyson gan yr adrannau i'r Gynhadledd Wyddonol, anogwyd myfyrwyr ymchwil i gyflwyno'u gwaith yn y gynhadledd, a gwelwyd staff a myfyrwyr ymchwil yn cyhoeddi papurau ymchwil yn Gwerddon. Bu i staff yr adrannau wasanaethu ar Banel Mathemateg a Ffiseg y Coleg, ymgymryd â chadeiryddiaeth y panel, bod yn aelod o Fwrdd Academaidd y Coleg Cymraeg, yn gadeirydd bwrdd golygyddol Gwerddon, gwasanaethu ar baneli addysgu ôl-raddedig ac ymchwil y Coleg a bod ar banel trefnu'r Gynhadledd Wyddonol. Roedd yn bleser gweld y cyfraniadau yn cael eu cydnabod pan ddyfarnwyd Gwobr Goffa Eilir Hedd Morgan i Huw Morgan a Tudur Davies a Gwobr Hwyluso Addysg Cyfrwng Cymraeg i Eleri Pryse.



Yr Athro Andy Evans, Pennaeth yr Adran Ffiseg a Chadeirydd Pwyllgor Gwyddoniaeth a Thechnoleg yr Eisteddfod Genedlaethol

**Hyrwyddo a Chydweithio:**
Hyrwyddwyd cyflwyno Ffiseg a Mathemateg drwy'r Gymraeg mewn cydweithrediad â chydweithwyr o sefydliadau eraill yng Nghymru a thu hwnt: cafwyd cydweithio gydag adrannau Mathemateg Prifysgolion Caerdydd ac Abertawe ac adran Ffiseg Prifysgol Abertawe, noddwyd siaradwyr allanol i Fforwm Mathemateg Prifysgolion Cymru gan y Coleg, sefydlwyd Clwb Mathemateg a gwefan mathemateg mewn chwaraeon, pontiwyd seryddiaeth a'r celfyddydau drwy brosiect RAS200 y Gymdeithas Seryddol Frenhinol, ysbrydolwyd pobl ifanc drwy weithdai astudiaethau'r gofod y prosiect Trio Sci Cymru, a phrofwyd cydweithio mewn eisteddfodau ym mhabell y Coleg Cymraeg a'r pafiliwn gwyddonol. Cafwyd cyfle neilltuol i hyrwyddo yn eisteddfodau Ceredigion. Sefydlwyd Y GwyddonLe yn Eisteddfod yr Urdd yn Llanerchaeron, ac eleni datblygwyd ar arlwy wyddonol yr Eisteddfod Genedlaethol yn y Pentref Gwyddoniaeth a Thechnoleg yn Nhregaron.

Pleser fu i'r grŵp gyfrannu at y gweithgareddau drwy'r pwyllgor lleol gydag: arddangosfeydd, darlith wyddonol y Coleg Cymraeg Cenedlaethol, cyflwyniadau cyntaf gan staff a myfyrwyr ymchwil yn y Gymraeg, sgyrsiau arloesi, a chyfleon i wrando ar wyddonwyr o Brifysgolion eraill yn cyflwyno canlyniadau a phrosiectau rhyngwladol megis y Telesgop James Webb.

**Gwerthfawrogiad**:
Gwerthfawrogir holl gefnogaeth y Coleg Cymraeg Cenedlaethol i'r gweithgareddau a chymorth staff y Coleg ym Mhrifysgol Aberystwyth. Gwerthfawrogir hefyd hynawsedd staff swyddfa'r adrannau Mathemateg a Ffiseg, Prifysgol Aberystwyth ar hyd y blynyddoedd, a'u cymorth parod yn Gymraeg i staff a myfyrwyr yr adrannau.

Edrychwn ymlaen at y degawd nesaf.

# Nyrsio

## Dr Angharad Jones



**Ym mis Medi 2022, bydd Prifysgol Aberystwyth yn croesawu ei charfan gyntaf o fyfyrwyr nyrsio wrth iddi fynd ati i gofleidio ei chenhadaeth ddinesig ac archwilio ffyrdd o gefnogi anghenion y gweithlu a'r gymuned yn y Canolbarth drwy gynyddu cyfleoedd i unigolion hyfforddi a gweithio mewn gofal iechyd yn eu hardal leol. Mae'r datblygiad cyffrous hwn yn benllanw blynyddoedd o waith caled, sydd wedi cynnwys llywio a sicrhau tendr addysgol, dilysiadau rheoleiddiol proffesiynol a chymeradwyaeth fewnol i'r cynllun.**

Mae'r Brifysgol yn ymfalchïo yn ei hymrwymiad i'r Gymraeg ac mae ganddi hanes cryf yn dyddio'n ôl i 1872. Gyda'i hanes a'i hymrwymiad parhaus, fe'i cydnabyddir yn arweinydd wrth ddarparu addysg uwch cyfrwng Cymraeg ac mae'n ystyried ei hun yn bartner pwysig wrth wireddu Strategaeth Iaith Gymraeg Llywodraeth Cymru 'Cymraeg 2050', Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015, yn ogystal â chyflawni Strategaeth 'Mwy na Geiriau....' sy'n hyrwyddo'r Gymraeg yn y sector iechyd a gofal cymdeithasol. Felly mae sicrhau bod gan y Gymraeg le amlwg yn y cwricwlwm nyrsio wedi bod yn ffocws allweddol drwyddi draw.



Mae darpariaeth Gymraeg wedi bod yn ganolog i'r cwrs Nyrsio newydd

Drwy holl gamau datblygu'r cwricwlwm, mae'r tîm Addysg Gofal Iechyd wedi cydweithio'n agos â chynrychiolwyr y Coleg Cymraeg Cenedlaethol [CCC], Canolfan Gwasanaethau'r Gymraeg y Brifysgol, Addysg a Gwella Iechyd Cymru, Dirprwy Is-Ganghellor y Gymraeg ac eraill, yn ogystal â chynnal arolwg peilot cychwynnol ar raddfa fach i ymgysylltu â phreswylwyr y Canolbarth. O fewn yr arolwg hwn, o ran darpariaeth gwasanaethau gofal iechyd Cymraeg, roedd y rhan fwyaf o'r cyfranogwyr yn teimlo ei bod yn 'bwysig iawn' bod cleifion yn gallu derbyn gwasanaethau gofal iechyd yn Gymraeg - os mai dyna eu dewis neu eu hangen. Mae hyn yn arbennig o berthnasol i rai preswylwyr cymdeithas, fel plant a phobl ifanc, pobl hŷn, pobl ag anableddau dysgu a defnyddwyr gwasanaeth iechyd meddwl a chleifion yn derbyn gwasanaethau dementia, gwasanaethau strôc a gwasanaethau iaith a lleferydd. Unwaith eto mae hyn yn amlygu'r pwysigrwydd sydd gan ddewis iaith mewn darpariaeth iechyd. Roedd y rhain yn ystyriaethau pwysig i'r tîm wrth gynllunio'r rhaglen, yn enwedig gan fod nifer uwch na chyfartaledd Cymru o siaradwyr Cymraeg yn byw yn y Canolbarth.

Yn ogystal, roedd y contract tendr ar gyfer meysydd nyrsio iechyd oedolion ac iechyd meddwl hefyd yn galw am ymrwymiadau o ran y Gymraeg; felly roedd rhaid eu cynnwys yn y rhaglen mewn ffordd ystyrlon. O ganlyniad, caiff galluoedd iaith Gymraeg yr holl fyfyrwyr nyrsio eu hasesu yn defnyddio offeryn Hunanasesu'r Gymraeg a chaiff myfyrwyr blwyddyn gyntaf amser i gwblhau pecyn e-ddysgu Cyflwyno'r Gymraeg y Comisiynydd a'u hannog i gyflawni Tystysgrif Sgiliau Iaith Gymraeg CCC. Bydd y tîm nyrsio'n hwyluso sesiynau sgwrsio Cymraeg sylfaenol yn gysylltiedig ag iechyd am ddim drwy 'Cornel Coffi a Clonc', a hefyd bydd dosbarthiadau Cymraeg dwys a ffracsiynol ar gael i fyfyrwyr nyrsio, yng ngofal adran Dysgu Cymraeg bwrpasol y Brifysgol. Mae cymorth i fyfyrwyr rhugl sy'n llai hyderus yn eu gallu i astudio drwy gyfrwng y Gymraeg ar gael gan ein Tiwtor Sgiliau Academaidd Cyfrwng Cymraeg. Mae cymorth pwrpasol pellach gyda sgiliau Cymraeg ar gael gan Diwtor Sgiliau'r Gymraeg.

Yn unol ag arfer safonol y Brifysgol, bydd myfyrwyr nyrsio sy'n siarad Cymraeg yn cael Tiwtoriaid Personol sy'n siarad Cymraeg a bydd hawl ganddynt i gyflwyno/sefyll yr holl aseiniadau modiwl yn Gymraeg. Gall myfyrwyr nyrsio sy'n astudio yn Gymraeg dderbyn cymorth ariannol ychwanegol drwy Ysgoloriaeth Astudio Cyfrwng Cymraeg y Brifysgol a/neu ysgoloriaethau CCC.



Dr Angharad Jones, darlithydd mewn Nyrsio, wrth ei gwaith

Bydd cyfanswm o 50% o'r rhaglen nyrsio gyffredinol ar gael drwy gyfrwng y Gymraeg ac fe'i cyflwynir drwy'r modiwl hydredol seiliedig ar ymarfer, a redir drwy gydol pob blwyddyn academaidd. Wrth gwblhau'r modiwl hwn bydd myfyrwyr nyrsio'n gweithio mewn amgylcheddau clinigol gyda'n partneriaid ymarfer yn yr ardal leol, a bydd y rhai sy'n dewis dilyn y modiwl yn Gymraeg yn cael Goruchwylwyr Ymarfer, Aseswyr Ymarfer ac Aseswyr Academaidd Cymraeg eu hiaith er mwyn cefnogi eu datblygiad clinigol a'u hasesiadau ymarferol. Ar gyfer y modiwl hwn rhaid i'r holl fyfyrwyr nyrsio gwblhau Asesiad Ymarfer Cymru Gyfan a'r ddogfen Cofnod Parhaus o Gyflawniad, ac mae'r e-bortffolio hwn ar gael yn Gymraeg i'r rheini sy'n cwblhau'r modiwl yn Gymraeg.

Er bod elfennau theori'r rhaglen yn cael eu cyflwyno yn Saesneg, mae'r cwricwlwm yn elwa o'r ffaith fod nifer dda o'r tîm Addysg Gofal Iechyd yn siaradwyr Cymraeg iaith gyntaf, gydag eraill yn ddysgwyr ymroddgar; felly gellir cefnogi darpariaeth i archwilio agweddau eraill ar gyflwyno'r rhaglen yn Gymraeg. Gallai hyn gynnwys gwaith mewn grwpiau bach, cymorth cymheiriaid a seminarau.


Wrth i Brifysgol Aberystwyth agosáu at ddathlu 150 mlynedd ers ei sefydlu, mae'n dechrau ar bennod newydd o ddarpariaethau addysgol, gan gynnig cynllun nyrsio dan ddylanwad elfennau daearyddol hanfodol ei hardal. Mae natur ddwyieithog elfennau ymarferol y rhaglen nyrsio, yr elfennau Cymraeg ychwanegol a'r cyfle i archwilio posibiliadau eraill o ran y Gymraeg yn destun cyffro, brwdfrydedd a chymhelliant i'r tîm Addysg Gofal Iechyd yn ogystal â chydweithwyr yn y Brifysgol yn ehangach. Ym mis Medi 2022 byddwn yn dechrau ar gyfnod newydd o addysg gofal iechyd yn y Brifysgol, a bydd y Gymraeg yn chwarae rhan allweddol, gan alluogi a diogelu gwasanaethau gofal iechyd ansawdd uchel drwy ddewis iaith cenedlaethau'r dyfodol.

# Seicoleg

**Cychwynnodd Seicoleg yn Aberystwyth yn 2007 fel Canolfan Seicoleg o fewn yr Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol. Derbyniodd yr adran ysgoloriaeth addysgu gan y Coleg Cymraeg Cenedlaethol er mwyn galluogi'r adran i gynnig rhywfaint o ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn y flwyddyn gyntaf. Yn y dyddiau cynnar, roedd yr adran yn canolbwyntio ar gefnogi siaradwyr Cymraeg a chynyddu'r galw am addysgu cyfrwng Cymraeg ymhlith myfyrwyr seicoleg. I gefnogi'r uchelgais hwn, cydweithiodd y Ganolfan Seicoleg a'r Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol ar brosiect ymchwil i archwilio profiadau staff addysg uwchradd a oedd yn addysgu seicoleg drwy gyfrwng y Gymraeg a ariannwyd gan Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru trwy gronfa Prosiectau Cymraeg Prifysgol Aberystwyth.**

Yn 2008, sefydlwyd yr adran Seicoleg yn adran ar ei phen ei hun.

I barhau â'r ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg, penododd Brifysgol Aberystwyth ddarlithydd dwyieithog i gefnogi'r ddarpariaeth yma tu hwnt i gyfnod cyllido ysgoloriaeth addysgu'r Coleg Cymraeg Cenedlaethol. Wrth i'r galw i astudio seicoleg trwy gyfrwng y Gymraeg ym Mhrifysgol Aberystwyth gynyddu, derbyniodd yr adran Ysgoloriaeth Ymchwil gan y Coleg Cymraeg yn 2012 i alluogi i'r adran i gynyddu nifer y credydau a gynigir yn Gymraeg ymhellach. Wrth i'r galw am ddarpariaeth cyfrwng Cymraeg yn Aberystwyth dyfu, a bu'r adran yn ffodus i benodi ail aelod o staff dwyieithog yn 2017. Galluogodd hyn ddarpariaeth fwy cynaliadwy a chefnogi twf parhaus darpariaeth seicoleg cyfrwng Cymraeg yn y Canolbarth. Ers hynny, mae dau aelod o'r adran wedi bod yn ffodus i dderbyn grant ymchwil bach gan y coleg ac rydym wedi cefnogi Seicoleg fel pwnc trwy dderbyn grant gan y Coleg i gyd-drefnu cynhadledd seicoleg cyfrwng Cymraeg gyda Phrifysgol Bangor a chyfrannu eitemau i'r prosiect Deunyddiau Dysgu.




Uned Caffael Iaith gan Dr Hanna Binks, sy'n rhan o adnodd digidol 'Seicoleg Datblygiad' y Coleg Cymraeg a gyhoeddwyd yn 2022 ac sydd ar gael ar Borth Adnoddau'r Coleg.

# Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu

**Dr Tamsin Davies**

**Mae addysg Gymraeg wedi bod ar gael yn yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu ers ei sefydlu yn y 1970au ac ar hyn o bryd mae'n cynnig dau gynllun gradd 100% cyfrwng Cymraeg, sef Creu Perfformio a Chreu Cyfryngau. Mae'r Adran wedi bod yn rhan o ddatblygu adnoddau a chyfoethogi'r ddarpariaeth Gymraeg ers dechrau'r Coleg hefyd. O dan Gynllun Staffio'r Coleg Cymraeg, cafwyd dau ddarlithydd cyfrwng Cymraeg ym meysydd y Cyfryngau a'r Celfyddydau Creadigol. Mae'r adnoddau yn cynnwys Esboniadur Theatr Cymru Gynnar ac Esboniadur Ffilm a Theledu Cymru, e-lyfr *Ysgrifau ar Ffilm a'r Cyfryngau*, a Chronfa Cyfieithiadau Cymru.**




Ysgrifau ar Ffilm a'r Cyfryngau (2012) a olygwyd gan yr Athro Elin Haf Gruffudd Jones: mae'r cyfranwyr yn cynnwys cyn-aelodau ac aelodau presennol o'r Adran megis y diweddar John Hefin, Dr Merris Griffiths, Dr Roger Owen a'r ddiweddar Dr Catrin Prys Jones. Ceir yr e-lyfr am ddim ar Borth Adnoddau'r Coleg Cymraeg.

Yn ogystal â phrosiectau datblygu adnoddau, mae sawl prosiect ymchwil wedi ennill Grant Bach y Coleg. Mae hyn yn cynnwys prosiect ymarfer fel ymchwil Y Gors, ffilm ddogfen farddonol/arbrofol fer a gynhyrchwyd yn 2016 dan arweiniad Dr Dafydd Sills-Jones ar destun Cors Fochno, ger y Borth, a phrosiect ffilm collage dan arweiniad Dr Greg Bevan.




Delwedd o ffilm fer Y Gors gan Dr Dafydd Sills-Jones, Anne Marie Carty a Nick Jones (2016)

Mae myfyrwyr israddedig yr Adran wedi elwa ar nifer o brosiectau cydweithredol, megis Gŵyl MAP, sy'n cynnig dosbarthiadau meistr a chyfleoedd perfformio i fyfyrwyr drama ac astudiaethau theatr o brifysgolion Cymru a gynhaliwyd ym Mhrifysgol Aberystwyth yn 2014, a Sgiliau Sgriptio, a oedd yn gwahodd dramodwyr cyfoes i siarad â myfyrwyr ar gyrsiau diwydiannau creadigol ar draws Cymru dros gyswllt fideo.

Ar lefel uwchraddedig, mae tri o fyfyrwyr ymchwil wedi ennill PhD dan nawdd y Coleg. Cwblhaodd Dr Ywain Tomos ddoethuriaeth ar 'Arwyddocâd anime fel ffurf animeiddio newydd, gan gyfeirio at weithiau dethol gan Hayao Miyazaki, Satoshi Kon a Mamoru Oshii' (2014) ac mae bellach yn gweithio i Lyfrgell Genedlaethol Cymru yn yr Archif Ddarlledu. Prosiect y berfformwraig, artist a llenor, Dr Rowan O'Neill, oedd 'Croesi'r bar: Archwilio hunaniaeth y mewnfudwr Prydeinig trwy gyfrwng archif yr artist Cliff McLucas' (2013) mewn cydweithrediad â Llyfrgell Genedlaethol Cymru. Yn olaf, cwblhaodd y llenor a dramodydd Dr Branwen Davies ei PhD ar 'Beth yw ysgrifennu newydd?: Dadansoddiad hanesyddol ac ymholiad ymarferol i'r hyn a olygir gan ysgrifennu newydd heddiw' (2016).



Dylan James, cyn-lysgennad y Coleg Cymraeg, yn perfformio yn 'Saer fy nef fy hun' gan fyfyrwyr yr Adran Astudiaethau Theatr, Ffilm a Theledu, Rhagfyr 2018

# Gwaith ein Myfyrwyr Disglair

## Polisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol a ffederaliaeth: achos Walwnia a Fflandrys yng Ngwlad Belg

**Llŷr ap Einion, Adran Gwleidyddiaeth Ryngwladol**

**Crynodeb**

***Mae Gwlad Belg yn adnabyddus am nodweddion unigryw'r gyfundrefn ffederal. Trafodir sut mae agweddau ar drefniadaeth ffederal y wladwriaeth yn effeithio ar bolisi datblygu cynaliadwy llywodraethau is-wladwriaethol Walwnia a Fflandrys rhwng 2015 a 2020, gan fabwysiadu safbwynt ffederaliaeth gymharol. Dadleuir mai anghymesuredd gwleidyddol yw'r nodwedd bwysicaf o drefniadau ffederal Gwlad Belg sydd wedi dylanwadu ar bolisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol, gyda Fflandrys yn meddu ar fwy o adnoddau economaidd a chyllidol na Walwnia. O ganlyniad, canfyddir bod Walwnia wedi gorfod rhoi mwy o flaenoriaeth i ddatblygu economaidd, gweithredu ar dlodi, ac wedi gorfod gohirio gweithrediadau polisi. Ar y cyfan, mae trefniadau ffederal Gwlad Belg wedi cyfrannu tuag at ddargyfeirio polisi rhwng Llywodraeth Fflandrys a Walwnia, yn enwedig yn achos agweddau economaidd ar ddatblygu cynaliadwy. Mae'r erthygl fer hon yn seiliedig ar ymchwil a wnaed ar gyfer traethawd hir MA.***

Gellir deall datblygu cynaliadwy fel ymgais i integreiddio amcanion datblygu economaidd, amddiffyn ac adfer systemau amgylcheddol a datblygu cymdeithasol (Moreira, 2019: 18). Dyma yw hanfod y weledigaeth 'tri philer' y cyflwynwyd am y tro cyntaf yn Uwchgynhadledd Rio (UNCED) 1992 (ibid). Cydran bwysig arall o ddatblygu cynaliadwy yw'r cysyniad o gyfiawnder rhwng cenedlaethau, gan gynnwys cenedlaethau'r dyfodol, a gwelir hyn yn amlwg yn niffiniad adnabyddus ComisiwnBrundtland (1987: 41):


"Sustainable development is development that meets the needs of the present without compromising the ability of future generations to meet their own needs."

Ystyrir datblygu cynaliadwy yn 'bolisi meta', hynny yw, polisi sydd wedi'i lunio i fod yn sail i nifer helaeth o feysydd polisi eraill (Happaerts a Van den Brande, 2011: 528). Yn ogystal, fe'i hystyrir yn bolisi 'o chwith', sydd yn cael ei ddatblygu'n gysyniadol ac y gwneir penderfyniadau arno, i raddau helaeth, ar y lefel rhyngwladol yn y lle cyntaf cyn cael ei dryledu i haenau is o lywodraeth trwy fecanweithiau cyd-drefniant fertigol (ymhlith haenau o lywodraeth) (Happaerts et al., 2012: 260). Mae ganddo hefyd ddimensiynau domestig a rhyngwladol clir, felly mae polisïau llywodraethau wedi'u cyfeirio nid yn unig ar gyfer eu tiriogaeth gyfansoddiadol ond hefyd ar gyfer rhannau eraill o'r byd (Van den Brande et al., 2012: 72-73).

Gan amlaf, dadansoddir polisi datblygu cynaliadwy ymhlith llywodraethau is-wladwriaethol o safbwynt llywodraethiant ar gyfer datblygu cynaliadwy, cydgyfeiriad polisi a llywodraethiant amlhaenog (Happaerts, 2008: 4-6; Happaerts a Van den Brande, 2011: 527-529; Van Poek et al., 2014: 695). Hyd yma, nid oes ymchwil sylweddol ar gael ar y testun hwn o safbwynt ffederaliaeth gymharol. Fodd bynnag, yn achos polisi cyhoeddus yn ehangach, dengys y llenyddiaeth hon bod y modd y mae trefniadau ffederal yn dylanwadu ar bolisïau yn dibynnu ar yr union gyfuniad o nodweddion cyfansoddiadol ffederal sydd yn perthyn i'r wladwriaeth, a bod hyn yn esbonio gwahaniaethau arwyddocaol ymhlith cyfundrefnau ffederal (Monstadt a Scheiner, 2014: 385; Schnabel, 2020: 268; Steurer a Clar, 2018: 252). Dyma yw'r ddealltwriaeth sydd yn ganolog i'r erthygl hon.



Baner Fflandrys



Baner Walwnia

**Methodoleg a dyluniad ymchwil**

Mabwysiadwyd dyluniad ymchwil astudiaeth achos sengl. Dewiswyd Gwlad Belg fel achos gan nad oes ganddi nodweddion cyfansoddiadol sydd yn wahanol, i raddau helaeth, i'r hyn sydd yn gyffredin yn y mwyafrif o gyfundrefnau ffederal. Achos gwyredig ydi hi felly, ac mae dyluniad o'r fath yn addas i archwilio esboniadau newydd mewn maes lle nad oes ond ychydig o ymchwil ar gael (Seawright a Gerring, 2008: 297, 303). Mae'r astudiaeth achos hefyd yn un fewnblanedig (embedded) (Gehman et al., 2017: 287, Yin, 2014: 53, 55-56) gan ei bod yn cynnwys is-unedau, sef llywodraethau rhanbarthol Walwnia a Fflandrys, er mwyn galluogi dadansoddiad o ddargyfeiriad polisi. Defnyddiwyd cyfuniad o ddogfennau polisi datblygu cynaliadwy a ffynonellau eilaidd er mwyn canfod mecanweithiau achosol posib sydd yn esbonio effaith nodweddion cyfansoddiadol ffederal ar bolisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol rhwng 2015 a 2020. Cymhwyswyd fframwaith dadansoddiad thematig gan Braune a Clarke (2006: 87-93) fel canllaw ar gyfer codio'r dogfennau polisi. Trwy wneud hyn cynhaliwyd dadansoddiad cymharol o lunio penderfyniadau a gweithredu gan Lywodraeth Walwnia a Fflandrys ar 17 amcan datblygu cynaliadwy'r Cenhedloedd Unedig (2021: 8-24). Crëwyd teipoleg o nodweddion ffederal fel cynsail ar gyfer y fframwaith damcaniaethol. Er eu bod yn cael eu defnyddio o fewn llenyddiaeth ffederaliaeth gymharol er mwyn disgrifio trefniadaeth cyfundrefnau ffederal yn benodol, nid ydynt o reidrwydd yn gwbl unigryw i gyfundrefnau ffederal (Caluwaerts a Reuchamps, 2014: 280; Swenden, 2006: 49-50, 57, 63).

## Cyfundrefn ffederal Gwlad Belg

Mae Gwlad Belg yn fath o ffederaliaeth ddwbl lle mae sofraniaeth wedi'i rhannu rhwng y llywodraeth ffederal a'r llywodraethau rhanbarthol (Fflandrys, Walwnia a Brwsel) yn ogystal â'r llywodraethau cymunedol sy'n seiliedig ar iaith sydd yn cynrychioli siaradwyr Ffrangeg, Iseldireg ac Almaeneg (Deschouwer, 2012: 76). Dros amser, mae hunanlywodraeth is-wladwriaethol wedi cynyddu wrth i rymoedd gael eu datganoli mewn modd allgyrchol, gan symud tuag at system mwy cyd-ffederal lle mae priodoleddau'r grwpiau ieithyddol a'r is-wladwriaethau yn cyd-fynd i raddau helaeth (Caluwaerts a Reuchamps, 2014: 291). Ymhellach, mae yna fecanweithiau cydgymdeithasol (consociational) sydd yn caniatáu ymwneud uniongyrchol gan is-wladwriaethau unigol (Popelier, 2018: 234-235). Rhan allweddol o gydgymdeithasiaeth yng Ngwlad Belg yw bod yr haen ffederal, lle mae grymoedd yn cael eu rhannu, yn gwarantu hawliau feto i bob actor sylweddol yn seiliedig ar gymunedau iaith, a dibynnir ar yr egwyddor o hunanlywodraeth er mwyn osgoi gwrthdaro (Deschouwer, 2012: 76). Mae dylanwad sylweddol pleidiau gwleidyddol ar lywodraethu a gwleidyddiaeth y wlad hefyd yn nodweddiadol o gydymdeithasiaeth (Happaerts et al., 2012b: 445; Caluwaerts a Reuchamps, 2014: 280).

Mae Gwlad Belg yn denu sylw o fewn y llenyddiaeth gan ei bod yn ymdebygu yn agosach i 'ffederaliaeth ddeuol' (lle nad oes yna fawr ddim gorgyffwrdd rhwng grymoedd cyfansoddiadol llywodraeth ffederal a llywodraethau is-wladwriaethol) na'r mwyafrif o gyfundrefnau ffederal (Van den Brande, 2012: 411-412).

Fodd bynnag, mewn gwirionedd, mae yna gyfuniad o nodweddion deuol a chydweithredol yn perthyn i gyfundrefn ffederal Gwlad Belg (Deschouwer, 2012: 77; Van den Brande, 2012: 412). Gwelir dimensiwn cydweithredol y ffederaliaeth ar ei amlycaf yn ei dibyniaeth ar gydweithio rhynglywodraethol mewn 19 achos polisi penodol lle mae'n rhaid cael cytundeb cydweithio rhwng y llywodraeth ffederal â phob llywodraeth ranbarthol (Goosens a Canoot, 2015: 46). Gellir mynd mor bell ag awgrymu bod Gwlad Belg yn arddangos nodweddion mwy cydweithredol os rhywbeth, yn hytrach na deuol o safbwynt ymarferol (Happaerts et al., 2012b: 454). Mae gan y Rhanbarthau a'r Cymunedau raddfa uchel o ymreolaeth dros gysylltiadau rhyngwladol ac mae hyn yn gysylltiedig â natur ddatganoledig y gyfundrefn ffederal - ynghyd â'r elfen ddeuol i raddau (Deschouwer, 2012: 62). Mae'n rheidrwydd ar bob llywodraeth (rhanbarthol, cymunedol a ffederal), i weithredu'r egwyddor *in foro interno, in foro externo* , sef 'mae grymoedd mewnol yn golygu grymoedd allanol', felly mae gan bob haen o lywodraeth yr hawl i drefnu contractau a chytundebau rhyngwladol ar gyfer materion polisi lle mae'r llywodraeth yn meddu ar rymoedd domestig drostynt (ibid). Mae'r egwyddor o fod heb hierarchaeth hefyd yn arwyddocaol iawn ac mae'n seiliedig ar y rhesymeg o lywodraethu trwy gydsyniad trosfwaol er mwyn bod llai o angen i'r llywodraeth ffederal a'r llywodraethau is-wladwriaethol gydweithio (Reuchamps et al., 2015: 446-447; Van den Brande, 2012: 411). Mae hyn yn gysylltiedig â nodweddion cydgymdeithasol, datganoledig a deuol y ffederaliaeth (ibid).

Mae yna elfen gref o anghymesuredd gwleidyddol ( political asymmetry ) yng Ngwlad Belg, ac mae hyn yn ymwneud yn bennaf â dylanwad gwleidyddol cymharol gryf Fflandrys dros wleidyddiaeth Gwlad Belg o'i chymharu â Walwnia, yn ogystal â gwahaniaethau sylfaenol yn nhrefniadaeth y Rhanbarthau a'r Cymunedau (Watts, 2008: 49). Yn gyntaf, mae gan Fflandrys fwy o gyfoeth a grym economaidd strwythurol na Walwnia (Burgess, 2006: 16) ac mae ganddi hefyd oddeutu 6 miliwn o siaradwyr Iseldireg o'i chymharu â Walwnia, sydd â llai na 4 miliwn o siaradwyr Ffrangeg (Sinardet, 2012: 179). Yn ail, mae'r Rhanbarthau a'r Cymunedau yn fathau gwahanol o unedau cyfansoddiadol sydd â chyfrifoldebau gwahanol. Er enghraifft, mae'r berthynas rhwng cynghorau'r Rhanbarthau a'r Cymunedau yn yr ardaloedd sy'n siarad Iseldireg neu Ffrangeg yn wahanol ac mae rhanbarth Brwsel yn cynnal perthynas unigryw â Fflandrys a Walwnia gan ei bod hi'n ddwyieithog yn swyddogol, ond bod yna fwyafrif sy'n siarad Ffrangeg (Burgess, 2006: 116; Watts, 2008: 49). Mae'r ffaith bod sefydliadau Rhanbarth a Chymuned Fflandrys wedi uno ond nid rhai Walwnia hefyd wedi atgyfnerthu'r anghymesuredd gwleidyddol (Watts, 2008: 56). Yn olaf, cydnabyddir Gwlad Belg yn wladwriaeth aml-genedlaethol gan fod gan y prif gymunedau iaith hunaniaeth sy'n arddangos nodweddion sy'n debyg iawn i genedligrwydd (Burgess, 2006: 117; Popelier, 2018: 231-232; Swenden, 2013: 374). Yng Ngwlad Belg, mae hunaniaeth Fflemaidd, Walwnaidd, yn ogystal â Belgaidd i'w canfod yn amlwg ac maent yn aml yn cydfodoli (Sinadert, 2012: 180). Fodd bynnag, mae'n bwysig nodi bod hunaniaeth diriogaethol is-wladwriaethol yn gryfach yn Fflandrys nag yn Walwnia (Happaerts, 2012a: 139).

### Canlyniadau: dylanwad cyfundrefn ffederal Gwlad Belg ar bolisi datblygu cynaliadwy Walwnia a Fflandrys

Mae'n debygol mai anghymesuredd gwleidyddol, ac yn fwy penodol, anghydbwysedd mewn adnoddau economaidd a chyllidol sydd wedi cael y dylanwad cryfaf ar bolisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol yng Ngwlad Belg. Yn Walwnia mae tystiolaeth bod nifer o gynlluniau gweithredu wedi gorfod cael eu gohirio yn sgil diffyg adnoddau (Llywodraeth Walwnia, 2018: 30, 33, 48-49, 54). Mae'r dadansoddiad o ddogfennau polisi hefyd yn awgrymu y gallai hyn fod yn rhannol gyfrifol dros y ffaith fod Llywodraeth Walwnia wedi blaenoriaethu gweithredu ar fynd i'r afael â thlodi ac ysgogi datblygiad economaidd (yn enwedig trwy newid patrymau cynhyrchu), gan gyfrannu tuag at ddargyfeiriad polisi rhwng y ddwy lywodraeth (Llywodraeth Walwnia, 2016a: 20-22; Llywodraeth Walwnia, 2018: 6-7). Mae egwyddorion democrataidd-gymdeithasol Llywodraeth Walwnia (2016a: 8, 14, 55-56) yn cyferbynnu ag egwyddorion rhyddfrydol Llywodraeth Fflandrys (2018: 14-15) yng nghydran economaidd eu polisïau datblygu cynaliadwy ond mae yna fwy o debygrwydd yn eu hagweddau cymdeithasol ac amgylcheddol (Llywodraeth Gwlad Belg, 2017: 15, 56). Mae priodweddau deuol a datganoledig y ffederaliaeth, ynghyd â phresenoldeb hunaniaeth diriogaethol, i raddau, hefyd wedi cyfrannu tuag at ddargyfeirio polisi (Celis a Meier, 2011: 55-56).

Fodd bynnag mae presenoldeb hunaniaeth diriogaethol gref wedi dylanwadu mwy ar ochr ryngwladol eu polisïau wrth iddynt ddefnyddio'r llwyfan rhyngwladol i fynegi eu hunaniaeth diriogaethol a chael eu cydnabod fel actor dilys, yn enwedig yn achos Fflandrys (Llywodraeth Fflandrys, 2018: 4, 10-11; Happaerts, 2012a: 139). Mae yna fwy o gyfeiriadaeth at ymrwymiadau rhyngwladol ym mholisïau Llywodraeth Fflandrys (2018: 4, 10-11), sy'n awgrymu eu bod wedi dod dan fwy o ddylanwad sefydliadau rhyngwladol na Llywodraeth Walwnia. Hefyd, ymddengys bod gan Lywodraeth Fflandrys ychydig yn fwy o ymrwymiad i gydweithio rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy na Llywodraeth Walwnia (Llywodraeth Gwald Belg, 2017: 64-66). Mae'r egwyddor o fod â dim hierarchaeth ac *in foro interno, in foro externo* hefyd wedi cael dylanwad nodedig ar bolisi datblygu cynaliadwy Walwnia a Fflandrys. Mae'r egwyddor o fod â dim hierarchaeth wedi arwain at amcanion llai uchelgeisiol ar gyfer gweithredu ar newid hinsawdd trwy leihau disgwyliadau am gyrraedd cytundebau cydweithio (Happaerts, 2015: 297). Cydnabyddir gweithredu ar newid hinsawdd yn agwedd ar ddatblygu cynaliadwy lle mae yna heriau arbennig yn parhau i rwystro cynnydd yng Ngwlad Belg gan y Cenhedloedd Unedig (2020: 134). Fodd bynnag, mae'r egwyddor *in foro interno, in foro externo* wedi cynyddu gallu'r llywodraethau is-wladwriaethol i weithredu'n rhyngwladol ar ddatblygu cynaliadwy trwy roi'r grym iddynt weithredu polisi allanol ar gyfer materion polisi sydd o fewn eu cymwyseddau domestig (Deschouwer, 2012: 62; Happaerts et al., 2012b: 443; Van den Brande, 2012: 72-73).

**Casgliad**

Dadansoddwyd ystod eang o nodweddion sydd yn gysylltiedig â chyfundrefn ffederal Gwlad Belg. Canfuwyd nifer o nodweddion sydd wedi cael dylanwad arwyddocaol ar bolisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol yno. Anghymesuredd gwleidyddol yw'r nodwedd sydd wedi dylanwadu fwyaf ar bolisi datblygu cynaliadwy is-wladwriaethol, ac mae'n esbonio pam y bu'n rhaid i Lywodraeth Walwnia yn enwedig ohirio nifer o weithrediadau polisi. Canfuwyd bod trefniadau ffederal Gwlad Belg, ar y cyfan, wedi cyfrannu tuag at ddargyfeirio polisi rhwng llywodraeth Fflandrys a Walwnia, a'r brif elfen o'r gyfundrefn ffederal sydd wedi cyfrannu tuag at hyn yw anghydbwysedd mewn adnoddau cyllidol ac economaidd, sy'n perthyn i'r nodwedd o anghymesuredd gwleidyddol. Yn olaf, mae presenoldeb hunaniaeth diriogaethol gref yn Fflandrys (a chymedrol yn Walwnia), sydd yn gysylltiedig â natur aml-genedlaethol y ffederaliaeth, wedi rhyngwladoli natur polisi datblygu cynaliadwy yn Fflandrys a chynyddu dargyfeiriad polisi.

**Llyfryddiaeth**

Audet, R. a Gendron, C. (2012). The Social and Political Construction of Sustainable Development in Quebec: A Critical Analysis of the Quebec Sustainable Development Policy. Yn Bruyninckx, H., Happaers, S., a Van den Brande, K. (Goln) Sustainable Development and Subnational Governments: Policy-Making and Multi-Level Interactions. Llundain: Routledge, 27-48.
Beyers, J. a Bursens, P. (2013). How Europe Shapes the Nature of the Belgian Federation: Differentiated EU Impact Triggers Both Co-operation and Decentralization. Regional & Federal Studies, 23(3): 271-292, DOI: 10.1080/13597566.2013.773898
Braun, V. a Clarke, V. (2006). Using thematic analysis in psychology. Qualitative Research in Psychology, 3(2): 77-101, DOI: 10.1191/1478088706qp063oa
Burgess, M. (2006), Comparative Federalism: Theory and Practice. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge.
Calluwaerts, D. a Reuchamps, M. (2014). Combining Federalism with Consociationalism: Is Belgian Consociational Federalism Digging its Own Grave? Ethnopolitics, 14(3): 277-295, DOI: 10.1080/17449057.2014.986866
Celis, K. a Meier, P. (2011). Convergence and Divergence: the Federalization of Belgian Equality Policies. Regional and Federal Studies, 21(1): 55-71, DOI: 10.1080/13597566.2010.507403
Cenhedloedd Unedig (2021). The Sustainable Development Goals Report. [Ar-lein]. Cyrchwyd 3 Awst 2021 o https://unstats.un.org/sdgs/report/2021/The-Sustainable-Development-Goals-Report-2021.pdf.
Cenhedloedd Unedig (2020). Sustainable Development Report 2020: The Sustainable Development Goals and Covid-19. [Ar-lein]. Cyrchwyd 19 Awst 2021 o https://s3.amazonaws.com/sustainabledevelopment.report/2020/2020_sustainable_development_report.pdf.
Comisiwn Brundtland (1987). Report of the World Commission on Environment and Development: Our Common Future [Ar-lein]. Cyrchwyd 18 Ionawr 2021 o https://sustainabledevelopment.un.org/content/documents/5987our-common-future.pdf.
Deschouwer, K. (2012). The Politics of Belgium: Governing a Divided Society, ail argraffiad. Basingstoke: Palgrave Macmillan.
Deschouwer, K. a Reuchamps, M. (2013). The Belgian Federation at a Crossroad. Regional & Federal Studies, 23(3): 260-270, DOI: 10.1080/13597566.2013.773896
Deschouwer, K. (2020). The Belgian Federation: A labyrinth state. Yn Loughlin, J., Kincaid, J., a Swenden, W. (Goln), Routledge Handbook of Regionalism and Federalism. Llundain ac Efrog Newydd: Routledge, 211-222.
Gehman, J. et al. (2018). Finding Theory-Method Fit: A Comparison of Three Qualitative Approaches to Theory Building. *Journal of Management Inquiry*, 27(3): 284–300, DOI: 10.1177/1056492617706029
Goosens, J. a Cannoot, P. (2015). Belgian Federalism after the Sixth State Reform. *Perspectives on Federalism*, 7(2): 29-55, DOI: 10.1515/pof-2015-0009
Happaerts, S. (2015). Climate governance in federal Belgium: modest subnational policies in a complex multi-level setting. *Journal of Integrative Environmental Sciences*, 12(4): 285-301, DOI: 10.1080/1943815X.2015.1093508
Happaerts, S. (2012a). Are you Talking to us? How Subnational Governments Respond to Global Sustainable Development Governance. *Environmental Policy and Governance*, 22: 127–142, DOI: 10.1002/eet.1577
Happaerts, S. (2012b). Does Autonomy Matter? Subnational Governments and the Challenge of Vertical Policy Integration for Sustainable Development: A Comparative Analysis of Quebec, Flanders, North Rhine-Westphalia and North Holland. *Canadian Journal of Political Science*, 45(1): 141-161, DOI: 10.1017/S000842391 1000941
Happaerts, S. a Van Den Brande, K (2011). Sustainable Development and Transnational Communication: Assessing the International Influence on Subnational Policies. *Journal of Comparative Policy Analysis: Research and Practice*, 13(5): 527-544, DOI: 10.1080/13876988.2011.605946
Happaerts, S. (2008). Inter-subnational Networks for Sustainable Development. State-of-the-art and the Experiences of Flanders and Wallonia. [Ar-lein]. Cyrchwyd 16 Mehefin 2021 o https://limo.libis.be/primo-explore/fulldisplay?docid=LIRIAS1862539&context=L&vid=Lirias&search_scope=Lirias&tab=default_tab&lang=en_US&fromSitemap=1.
Happaerts, S. a Van Den Brande, K (2011). Sustainable Development and Transnational Communication: Assessing the International Influence on Subnational Policies. Journal of Comparative Policy Analysis: Research and Practice, 13(5): 527-544, DOI: 10.1080/13876988.2011.605946
Lafferty, W. M. (2015). Local Agenda 21: The Pursuit of Sustainable Development in Subnational Domains. Yn Devuyst, D., Hens, L., a De Lannoy, W. (Goln) How Green Is the City? Efrog Newydd: Columbia University Press, 63-84.
Llywodraeth Fflandrys (2018). *Focus 2030: A 2030 objectives framework for Flanders.* [Ar-lein] Cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021 o https://do.vlaanderen.be/sites/default/files/atoms/files/Focus_2030_0.pdf.
Llywodraeth Fflandrys (2016). *Vision 2050: A Long-Term Strategy for Flanders*. [Ar-lein]. Cyrchwyd 21 Gorffennaf 2021 o https://publicaties.vlaanderen.be/view-file/28831.
Llywodraeth Gwlad Belg (2017). Pathways to Sustainable Development: First Belgian National Voluntary Review on the Implementation of the 2030 Agenda. [Ar-lein]. Cyrchwyd 2 Awst 2021 o https://sustainabledevelopment.un.org/content/documents/15721Belgium_Rev.pdf.
Llywodraeth Walwnia (2018). Mise on oeuvre de la 2e Stratégie wallonne du developpment durable. [Ar-lein]. Cyrchwyd 2 Awst 2021 o https://developpementdurable.wallonie.be/sites/default/files/user_uploads/Rapport%20de%20mise%20en%20oeuvre%20SWDD_fd_0.pdf.

Llywodraeth Walwnia (2016a). Developpment Durable: 2e Stratégie Wallonne. [Ar-lein]. Cyrchwyd 2 Awst 2021 o *https://developpementdurable.wallonie.be/sites/dd/files/2020-01/2de-Strat%C3%A9gie%20wallonne%20de%20d%C3%A9veloppement%20durable_0.pdf*.
Llywodraeth Walwnia (2016b). 2nd Walloon Sustainable Development Strategy: Executive Summary. [Ar-lein]. Cyrchwyd 2 Awst 2021 o https://developpementdurable.wallonie.be/sites/default/files/2018-01/Executive%20summary_vf%202016_0.pdf.
Monstadt, J. a Scheiner, S. (2014). Allocating greenhouse gas emissions in the German federal system: Regional interests and federal climate Governance. Energy Policy, 74: 383-394, DOI: 10.1016/j.enpol.2014.09.001
Moreira, N. F. C. (2019). A brief overview of sustainable development: how a debated concept with a much-contested legal nature could perform a valuable role in the decision-making. Revista de Direito Internacional, 16(2): 16-38, DOI: 10.5102/rdi.v16i2.5972
Popelier, P. (2018). Bicameralism in Belgium: the dismantlement of the Senate for the sake of multinational confederalism. Perspectives on Federalism, 10(2): 215-237, DOI: 10.2478/pof-2018-0024
Popelier, P. a Cantillon, B. (2013). Bipolar Federalism and the Social Welfare State: A Case for Shared Competences. Publius: The Journal of Federalism, 43(4): 626-647, DOI: 10.1093/publius/pjt005
Reuchamps, M., Sinardet, D., Dodeigne, J., a Caluwaerts, D. (2015). Reforming Belgium's Federalism: Comparing the Views of MPs and Voters. *Government and Opposition*, 52(2): 460–482, DOI: 10.1017/gov.2015.29
Schnabel, J. (2020). *Managing Interdependencies in Federal Systems: Intergovernmental Councils and the Making of Public Policy*. Cham, Swistir: Palgrave Macmillan.
Seawright, J. a Gerring, J. (2008). Case Selection Techniques in Case Study Research: A Menu of Qualitative and Quantitative Options. *Political Research Quarterly*, 61(2): 294-308, DOI: 10.1177/1065912907313077
Sinardet, D. (2012). Is There a Belgian Public Sphere? What the Case of a Federal Multilingual Country Can Contribute to the Debate on Transnational Public Spheres, and Vice Versa. Yn Seymour, M., a Gagnon, A.G. (Goln) Multinational Federalism: Problems and Prospects. Efrog Newydd: Palgrave Macmillan, 172-192.
Steurer, R. a Clar, C. (2018). The ambiguity of federalism in climate policymaking: how the political system in Austria hinders mitigation and facilitates adaptation. Journal of Environmental Policy & Planning, 20(2): 252-265, DOI: 10.1080/1523908X.2017.1411253
Swenden, W. (2006). Federalism and regionalism in Western Europe: a comparative and thematic analysis. Efrog Newydd: Palgrave Macmillan.
Van den Brande, K. (2012). Intergovernmental Co-operation for International Decision making in Federal States: The Case of Sustainable Development in Belgium. Regional & Federal Studies, 22(4): 407-433, DOI: 10.1080/13597566.2012.680959
Van den Brande, K., Happaerts, S., a Bruyninckx, H. (2012). Multi-Level Interactions in a Sustainable Development Context: Different Routes for Flanders to Decision-Making in the UN Commission on Sustainable Development. Environmental Policy and Governance, 21(1): 70-82, DOI: 10.1002/eet.563
Van Potek, K., Vandenabeele, J., a Bruyninckx, H. (2014). Taking stock of the UN Decade of education for sustainable development: the policy-making process in Flanders. Environmental Education Research, 20(5): 695-717, DOI: 10.1080/13504622.2013.836622
Watts, R. L. (2008). Comparing Federal Systems, trydydd argraffiad. Montreal a Kingston, Canada; Llundain; Ithaca, Efrog Newydd: McGill-Queen's University Press.
Yin, R. K. (2014). Case Study Research: Design and Methods, pumed argraffiad. Los Angeles, California: SAGE.

# Beth yw natur anghydraddoldeb rhyw o fewn y maes rhewlifeg?

**Einir Jones, Adran Daearyddiaeth a Gwyddorau Daear**

Dyddia’r maes rhewlifeg yn ôl i’r 17eg ganrif, lle'r oedd menywod yn gyfan gwbl absennol o’r ddisgyblaeth. Wrth gwrs, wrth i fenywod dderbyn mwy o hawliau o fewn y system gymdeithasol yn gyffredinol, ochr yn ochr â hynny, ar drothwy’r 80au a’r 90au fe welir mwy a mwy o fenywod yn ymuno â’r maes rewlifeg ac erbyn heddiw maent yn chwarae rôl flaenllaw o fewn y maes. Serch hyn, mae’r naratif gwrywol wedi gwreiddio’n ddwfn ac i raddau yn parhau i ddominyddu; ochr yn ochr â hynny mae anghydraddoldebau rhyw yn dal yn gadarn yn eu lle. O fewn llenyddiaeth bresennol ar anghydraddoldeb rhyw mae’r ymchwil yn brin ac nid yw’r pwnc wedi cael ei archwilio yn ddwfn. Dyma pam y dewisais i gyfrwng fy nhraethawd hir i archwilio natur yr anghydraddoldeb rhyw presennol er mwyn ceisio llenwi'r bwlch hwnnw gan amlygu gwir sefyllfa’r maes rhewlifeg heddiw. Ymhellach, perir i wyddoniaeth gael ei chyd-gyfansoddi ar sail rhyw o ganlyniad i systemau gwladwriaeth, imperialaeth a phatriarchaeth ac mae’n hanfodol cael mwy o lenyddiaeth sy’n ffocysu ar statws y fenyw o fewn y meysydd hyn er mwyn ei herio. O wneud yr ymchwil hwn hefyd gellir gwneud cysylltiadau ehangach am natur ddynamig sefyllfa bresennol anghydraddoldeb o fewn pynciau STEMM yn gyffredinol. Ond yn bwysicach na dim, roedd yr ymchwil hwn yn rhoi llais i’r menywod rannu eu profiadau; gobeithio y bydd yn sbarduno menywod eraill i siarad am eu profiadau, ac i herio anghydraddoldebau rhyw o fewn meysydd ehangach.

### Nod ac amcanion


Felly nod y prosiect hwn oedd archwilio natur yr anghydraddoldeb rhyw presennol o fewn y maes rhewlifeg gan ddarganfod sut a ble mae’n bodoli, beth yw’r effaith ar y wyddoniaeth, a natur y cynlluniau sydd mewn lle i geisio ei leddfu. Amcanion gwneud hyn yw tynnu ar brofiadau'r menywod sydd yn bresennol yn y maes drwy gyfrwng holiaduron a chyfweliadau. Er mwyn gallu cyflawni hyn yn effeithiol fe ddewisais 3 is-gwestiwn:

1. Beth yw profiadau menywod o anghydraddoldeb o fewn y maes rhewlifeg?
2. Sut mae tawelu llais y ferch yn arwyddocaol o fewn rhewlifeg?
3. Beth yw natur y strategaethau sydd wedi eu gosod er mwyn lleddfu’r anghydraddoldebau?


Yn sgil cyfyngiadau geiriol yr erthygl hon, byddaf yn trafod rhai o ganlyniadau is-gwestiynau 1 a 3.

### Casglu data

Casglwyd data drwy gyfrwng holiaduron a chyfweliadau; llenwyd 83 o holiaduron, a chynhaliwyd 13 cyfweliad gyda menywod amrywiol o fewn y maes, yn bennaf o fewn prifysgolion y Deyrnas Unedig ac Unol Daleithiau America. Llwyddwyd i gael cyfanswm o 83 ymateb i’r holiadur, a throsglwyddwyd y data meintiol i gyfrwng graffiau, a chôdwyd y data ysgrifenedig. Ymhellach cynhaliwyd 13 cyfweliad gyda thrawstoriad o fenywod y maes, a chawsant eu trawsgrifio a’u codio.




Ffigwr 1: Graff yn dangos canlyniadau cwestiwn 5 yr holiadur (84 ymatebion)




Ffigwr 2: Graff yn dangos canlyniadau cwestiwn 6 yr holiadur (84 ymatebion)

## Canlyniadau


1. Beth yw profiadau menywod o anghydraddoldeb o fewn y maes rhewlifeg?

Datgelwyd yn glir drwy ymatebion cyson y data fod y maes yn parhau i gael ei ddominyddu yn helaeth gan ddynion: mae 46.4% o holl ymatebwyr ffigwr 1 yn cytuno'n gryf gyda'r datganiad hwn. Nododd cyfwelai 7 fod 'tri neu bedwar o ddynion i bob menyw' ar y rhan fwyaf o alldeithiau, a nododd cyfwelai 6 sydd â 35-44 blynedd o brofiad yn y maes ei bod wedi gweithio 'mostly with men, talked mostly with men, most interactions and organizing things have been with men'. Thema barhaus y cyfeiriodd nifer yn uniongyrchol neu'n anuniongyrchol ati oedd ffenomen y 'leaky pipeline', lle dywedwyd bod 'a healthy proportion of women' (Cyfweliad 1) ar lefel israddedig a graddau Meistr nawr. Ond amlygwyd patrwm lle mai dynion sydd â rheolaeth, a goruchafiaeth dros swyddi arweiniol, rolau uwch ac athro, cyfleoedd PhD ac ôl-ddoethuriaeth; ar y llaw arall: 'all the lecturers and lower, or early career roles there are more women (Cyfweliad 13). Yn gadarnhaol fodd bynnag, oedd yr ymdeimlad o obaith wrth i nifer arsylwi ar newid presennol yn nynamig y maes gan i'r mwyafrif nodi fod 'yn sicr mwy o fenywod yn dod mewn' (Cyfweliad 4).

Rhwystredig oedd gweld graddfa mor syfrdanol o 72.6% o ymatebwyr yn ffigwr 2 oedd wedi profi anghydraddoldeb o fewn y maes.

Datgela ffigwr 3 ymhellach fod rhan helaeth o'r anghydraddoldeb hwn yn digwydd drwy ddulliau cudd neu leisiol a thrwy roi blaenoriaeth amlwg i ddynion; mae'n debyg bod anghydraddoldeb systematig y ganrif ddiwethaf wedi trawsnewid i 'very subtle microaggressions' (Cwestiwn 8 holiadur) ond sy'n dal yr un mor niweidiol. Rhaid hefyd cyfeirio at y 16.7% o'r ymatebwyr yn ffigwr 2 a oedd wedi nodi nad oeddent wedi profi anghydraddoldeb, yn ogystal â 2/13 cyfwelai; nid pawb felly ond mae'r profiad yn eithaf cyffredin.

O fewn gwaith maes y prif batrymau oedd diffyg offer a dillad priodol, diffyg cyfleoedd, anghydraddoldeb lleisiol ac aflonyddu. O ymatebion yr holiaduron, gellir dweud bod menywod yn aml yn cael eu hanwybyddu a'u tanamcangyfrif wrth ystyried gwaith maes, a bod cyfleoedd cyfyngedig i fenywod gael 'dylanwad strategol o ran ystyriaethau, chynllunio a thrafodaeth am allteithiau a thripiau' (Holiadur C.8). Tybiwyd bod dynion yn fwy addas a phriodol oherwydd canfyddiadau yn 'seiliedig ar gryfder' (Holiadur C.8) gydag 'edrychiad ffisegol' a 'gallu meddyliol' (Cyfweliad 12) menywod i fynd allan i'r maes yn cael ei gwestiynu, ac felly caiff dynion â llai o brofiad, llai cymwysedig eu blaenoriaethu.




Ffigwr 3: Graff yn dangos canlyniadau cwestiwn 7 yr holiadur (61 ymatebion)

Ar ôl cyrraedd y maes, amlygwyd bod anghydraddoldeb geiriol cryf gyda sylwadau rhywiaethol, jôcs a 'banter' sy'n niweidio, 'israddio' a bychanu menywod i'w gweld yn cylchdroi'n ddi-baid. Disgrifiodd un ymatebydd i'r holiadur y rhain fel 'sniggery comments [that] leave women feeling like they are belittled'. Adroddodd cyfwelai enghraifft uniongyrchol o hyn ar ei halltaith i'r Arctig, lle eglurai sut y cafodd hi ei gwatwar fel 'merch fach' wrth drafod saethu arth wen, ac gwnaeth hynny iddi deimlo fel 'nad oeddwn i yn perthyn i'r sefyllfa yno.' (Cyfweliad 2). Adroddodd menyw arall sut y cafodd gwersyll o ferched eu galw yn 'girly camp' (Cyfweliad 5) a hynny gyda'r bwriad o'u bychanu. Defnyddia nifer o'r sylwadau hyn felly eiriad uniongyrchol yn erbyn menywod a'u priodweddau ystrydebol, er mwyn eu gosod mewn safle israddol i ddynion. Thema debyg arall drwy lif y data yw bod menywod yn cael eu diystyru o fewn gwaith maes; hynny yn amlwg wedi cael ei briodoli i ddiffyg ymddiriedaeth a pharch sydd wedi'u priodoli i fenywod: fel y nododd cyfwelai 9: 'they were very dismissive of me (...) they didn't respect me'.

Dychrynllyd hefyd oedd sylwi ar batrwm cryf o achosion o aflonyddu rhywiol sy'n cymryd lle yn y maes, sef profiad 5/13 o'r cyfweleion. Amlygwyd bod hyn oherwydd nifer cyfyngedig o fenywod yn y maes, a natur anghysbell ac ynysig lleoliadau cryosfferig sy'n magu amgylcheddau unig ac, yn benodol, amgylcheddau ofnus i nifer o fenywod; fel yr adroddodd cyfwelai 3:

'Camping with 20 other men, I was complete alone in my tent, I didn't feel safe (..) I was sexually assaulted twice across that time, and that's the reality of being a female glaciologist'

Ochr arall yr anghydraddoldeb a welwyd oedd o fewn gofodau academaidd gyda 'constant both conscious and unconscious bias your whole career' (Cyfweliad 6). Eto amlygir patrwm o fenywod yn cael eu hanwybyddu, eu tanamcangyfrif ac, yn aml, yn cael eu rhoi yn eilradd y tu ôl i ddynion er eu bod nhw mewn safle mwy profiadol a chymwysedig. Arweinia hynny eto at fechgyn yn cael y cyfleoedd gorau a'r cynigon cyntaf:

'The deliberate or unconscious bias like promotions, the panels are normally mostly men. Reviewers are mostly men.' (Cyfweliad 8)

O ganlyniad, nodwyd bod adolygiadau o bapurau menywod yn 'llawer llymach', a'r broses o gael mynediad yn heriol iawn. Ymhellach fe'u heithriwyd hwy yn helaeth o rwydweithio a chydweithio rhwng academyddion, gyda dynion mewn sefyllfaoedd uwch yn rhoi'r cyfleoedd cydweithio, sy'n rhan allweddol o ffynnu mewn gyrfa, i ddynion ifancach. Nododd cyfwelai 3 yn y dyfyniad canlynol ei sicrwydd mai problem rhyw oedd hon, ac nid problem oedd yn gyffredin ymysg dynion:

'Talking to male colleagues and their advisors, taking the time to make introductions for them and network and giving them all types of opportunities' (Cyfweliad 3).

Amlygir bod ennyn parch eto yn broblem eang ar yr ochr academaidd a hynny, yn ôl pob tebyg, oherwydd y 'big authority gap between men and women' (Cyfweliad 1).

Ceir llu o enghreifftiau o waith menywod yn cael ei sarhau, ac eraill yn siarad i lawr â menywod: er enghraifft, 'my scientific ideas and/or evidence were dismissed, belittled, or rejected outright' (Holiadur C.8), 'my points in meetings/groups being repeated by a senior man after I had made them' (Cyfweliad 13). Eto yma gwelir nifer o anghydraddoldebau lleisiol gyda sylwadau 'nawddoglyd' a 'goddefgar' (Holiadur C.8), oedd yn aml yn bychanu eu gwaith, megis 'Does your advisor believe this?' (Cyfweliad 5). Yn gyson dengys y data'r ffordd y caiff menywod eu holi'n 'aggressively' (Holiadur C.8) neu 'interrogated more so than a colleague that would be a male in my position' (Cyfweliad 2), eto yn dyst i'r diffyg parch ac ymddiriedaeth yng ngallu menywod. Aiff rhai anghydraddoldebau lleisiol hefyd y tu hwnt i sylwadau bychanol ac i fwlio neu aflonyddu, fel y dengys enghraifft yn holiadur 8:


'Told by an older male scientist that it doesn't matter what I say on the stage during my presentation as I am pretty enough to get away with talking trash.'

3. Beth yw natur y strategaethau sydd wedi eu gosod er mwyn lleddfu'r anghydraddoldebau?

Dengys ffigwr 8 fod mwy na hanner y menywod wedi cael cymorth i gyrraedd eu safleoedd presennol o fewn y maes, wrth i 53.6% ymateb eu bod wedi bod yn rhan o strategaethau i liniaru'r anghydraddoldebau. Strategaethau a gafodd eu crybwyll yn eang oedd y rheiny sydd wedi eu gosod yn systematig er mwyn cynorthwyo mwy o fenywod i mewn i'r maes.




Ffigwr 8: Graff yn dangos atebion i gwestiwn yr holiadur. 84 ymatebion)




Ffigwr 9: Graff yn dangos atebion i gwestiwn 14 yr holiadur (84 ymatenion)

Yn arbennig crybwyllir systemau cwotâu megis Athena Swan yn y DU a rhai mwy cyffredinol yng Ngogledd America o fewn prosesau cyflogi, grantiau, ac ymgeiswyr. Ond drwy ffrwd y data, holltwyd ymatebion ar y cwestiwn a oeddent yn gweithio yn effeithiol ai peidio. Daw un ochr o'r safbwynt 'women are not more deserving than men' (Cyfweliad 9), a bod rhoi mwy o gyfleoedd i fenywod yn trosglwyddo' r anghydraddoldeb wedyn i'r dynion. Ond nododd nifer ei fod yn beth da bod sefydliadau yn cael eu rhoi dan bwysau, oherwydd 'pam nad oeddent nhw [y strategaethau] yno, nid oedden nhw'n [y sefydliadau] gwneud hynny', ac felly os mai systemau ymledol fel hyn sydd eu hangen i gyrraedd cyfiawnder y byddant yn eu cefnogi. Dadleuodd nifer, megis cyfwelai 8, fod y rhain yn systemau fwy na theg:

'If you supposably have a man and a woman same on paper, that women is more superior because she has to do all these extra things to be treated as the same, so men are taking women places, they are getting them artificially because they've taken the places of women'

Gwendid arall oedd y gall teimladau chwerw ddod i'r fei drwy'r strategaethau hyn gan fod neb eisiau bod yn 'token female' (Cyfweliad 1). Fe soniodd cyfwelai 7 am amser pan dderbyniodd hi grant ar gyfer ymchwilio, ond nid oedd wedi ei chymeradwyo oherwydd safon a pherfformiad rhagorol ei gwaith ond, yn hytrach, dim ond oherwydd ei bod hi'n fenyw.

Gall y rhain felly fod yn niweidiol, gan adael menywod yn teimlo mai'r unig reswm y maent wedi cael rôl benodol o fewn y maes yw er mwyn buddiannau allanol sefydliad, a ddim oherwydd eu cyrhaeddiad a photensial academaidd o fewn y maes, a hynny yn arwain at deimladau o siomedigaeth ac yn lleihau hyder, fel esboniai cyfwelai 1 ei phrofiad hi:

'Am I here on my own merit or just because I ticked a box? It massively knocked my confidence and how I feel about myself.'

Y strategaeth fwyaf a ddaeth i'r amlwg drwy'r data oedd y cynlluniau 'LDP' y'u trafodir yn helaeth yn llenyddiaeth Pettit et al (2010). Yma fe grybwyllir rhaglenni 'Girls On Ice', 'Girls in Geosciense' ac 'Inspiring Girls Expedition'. Amlygir bod y rhain yn ffordd fwy organig a chynaliadwy o gyflwyno ac ennyn menywod i mewn i'r maes mewn gwedd sy'n rhoi cyfle a hyder i fenywod ddewis neu i barhau yn y ddisgyblaeth. O'r nifer a oedd yn ymwybodol o'r cynllun, mae'n amlwg fod 'Girls on Ice' yn benodol wedi cael dylanwad eang iawn ar fenywod mewn ffyrdd amrywiol: 'Large confidence booster for young girls' (Cyfweliad 2), 'build leadership skills' (Cyfweliad 10), a 'creates opportunities' (Holiadur C.19).

Codwyd ambell i gynllun mwy eang hefyd, megis 'Cydweithrediad Rhyngwladol Rhewlif Thwaites' sy'n ceisio 'gosod arferion newydd, tecach ar gyfer gwaith maes yn yr Antarctig' (Holiadur C.19). Ymhellach, crybwyllir rhaglen y 'Polar Horizons' sydd â'r nod o gynyddu amrywiaeth mewn gwyddor begynol trwy fentrau i adeiladu cysylltiadau a chydweithio rhwng grwpiau heb gynrychiolaeth ddigonol. Yma eto gwelir nifer o ymatebwyr yn crybwyll bod angen dybryd am strategaethau sy'n targedu'r grwpiau sydd yn fwy lleiafrifol fyth.

Un o'r strategaethau a dybiwyd fwyaf pwerus oedd cael a chreu modelau rôl 'y gall menywod ifanc edrych i fyny arnynt' (Holiadur C.19).

Adroddai nifer o fenywod ar y dylanwad cadarnhaol y cafodd y rhain arnynt: e.e. cyfwelai 3: 'they were very inspiring to me, seeing people you identify with motivates you'. Soniai cyfwelai 6 fod y diffyg menywod o fewn rhewlifeg pan oedd yn iau wedi gwneud y freuddwyd neu'r eisiau i fod yn rhewlifwr yn annychmygadwy; hynny yn cysylltu â llenyddiaeth Blickenstaff (2005) ar y cydsyniad o fàs critigol. Crybwylla ymatebydd i'r holiadur fod y diffyg modelau rôl hwn yn ategu at broblem y 'leaky pipeline' hefyd:

'This limits the progression of undergraduate women in the field as they didn't have a role model in the formative years of their higher education' (Holiadur C.19).

* * *

Er nad yw'r holl ganlyniadau wedi'u hamlygu yma , yn sicr mae cyfleodd gwerthfawr a phwysig iawn i ymchwiliadau ehangach: po fwyaf y caiff profiadau menywod eu hadrodd arnynt, po orau y bydd dealltwriaeth o natur y broblem. Yn sicr mae'n amser cael cyfiawnder i fenywod, ac mae'n rhaid gweld newidiadau parhaol i anghydraddoldeb rhyw o fewn rhewlifeg, a meysydd STEMM yn gyffredinol. Y camau cyntaf i wneud hynny yw drwy ymchwiliadau pellach, a gosod llwyfannau ehangach fel hyn i fenywod adrodd eu profiadau er mwyn inni ddeall sut i'w targedu. Dim ond wedyn y bydd modd dileu cwestiynau annatrysadwy menywod sydd wedi gorfod ildio i'r systemau gwyddoniaeth llygredig hyn:

'Where would I have been if I was a man?' (Cyfwelai 8)

**Llyfryddiaeth**
Blickenstaff, J.C. (2005). Women and Science Careers: Leaky Pipeline or Gender Filter? Gender and Education, 17: 369-386.
Pettit, E., Mortenson, C., Stiles, K., Coryell-Martin, M. a Long, L. (2010). Girls on Ice: Using Immersion to Teach Fluency in Science. AGU Fall Meeting Abstracts. [Ar-lein]. Cyrchwyd 29 Awst 2023 o https://www.researchgate.net/publication/253324186_Girls_on_Ice_Using_Immersion_to_Teach_Fluency_in_Science.

# Diolch yn fawr i bawb sydd wedi cyfrannu tuag at y llyfryn yma!

